# Datganiad Egwyddorion Amgylcheddol ac Integreiddio Diogelu'r Amgylchedd drafft

## Fframwaith Deddfwriaethol Amgylcheddol Cryfach i Gymru

### Cynnwys


Cyflwyniad ... 3

Strwythur y Datganiad Egwyddorion Amgylcheddol ac Integreiddio Diogelu'r Amgylchedd 4

Rhan A: Egwyddorion Amgylcheddol ac Integreiddio Diogelu'r Amgylchedd ... 6

Trosolwg o Ran 1 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol: amcan ac egwyddorion amgylcheddol ... 6

Diben y Datganiad ... 7

Trefniadau Gweithdrefnol ... 8

Diffiniadau Allweddol ... 8

Yr amcan amgylcheddol ... 8

Dyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd ... 12

Yr egwyddorion amgylcheddol ... 13

*Yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol ... 13*

*Yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd ... 14*

*Yr egwyddor y dylid cywiro difrod amgylcheddol fel mater o flaenoriaeth yn y tarddle .. 15*

*Yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu ... 16*

Mae'r egwyddorion amgylcheddol yn cyd-fynd â'i gilydd a'r dyletswyddau i integreiddio diogelu'r amgylchedd ... 18

Sut mae'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol yn berthnasol i'w gilydd ... 19

Rhan B: Dyletswyddau Gweinidogion Cymru wrth lunio polisi ... 21

Dyletswydd ar Weinidogion Cymru ... 21

Sut y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig cydymffurfio â'r ddyletswydd llunio polisi yn adran 3(1) ... 21

Sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn ymwneud â'r amcan amgylcheddol ... 25

Perthynas dyletswydd llunio polisi Gweinidogion Cymru â phwerau a dyletswyddau eraill25

Dangos cydymffurfiaeth ... 26

Rhan C: Canllawiau i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ... 28

Dyletswyddau ar CNC ... 28

Sut i gydymffurfio â'r ddyletswydd llunio polisi yn erthygl 4A(1) o Orchymyn Sefydlu CNC ... 28

Sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ymwneud â'i gilydd a dyletswydd integreiddio CNC ... 31

Perthynas dyletswydd llunio polisi CNC â phwerau a dyletswyddau eraill ........................31
Dangos cydymffurfiaeth ..........................................................................................31
Rhan D: Canllawiau i awdurdodau cyhoeddus penodol sy'n cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ......................................................................33
Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 ...............33
Asesiadau amgylcheddol: dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus penodol o dan y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol ..........................................................................34
Sut i gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 5(1) ..................................................................35
Sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ymwneud â'i gilydd ac â'r ddyletswydd integreiddio ..........................................................................................................39
Sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd integreiddio yn ymwneud â'r amcan amgylcheddol .............................................................................................39
Sut y mae'r ddyletswydd adran 5(1) yn ymwneud â phwerau a dyletswyddau eraill .........39
Dangos cydymffurfiaeth ..........................................................................................40
Geirfa……………………………………………………………………………………..41

# Cyflwyniad

Mae Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (“y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol”) yn nodi amcan amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol. Mae’n sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd, cryfach ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru. Mae’n gwneud hyn drwy osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (“CNC”) ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill i gymhwyso’r egwyddorion amgylcheddol ac i integreiddio diogelu’r amgylchedd. Bwriedir i’r dyletswyddau hyn fod yn sylfaen ar gyfer sicrhau bod diogelu’r amgylchedd a’r angen i wella’r amgylchedd yn cael eu hymgorffori yn y broses o lunio polisïau, ac asesiadau amgylcheddol strategol, yng Nghymru. Maent yn hanfodol i gyfrannu at ddiogelu a gwella’r amgylchedd, lliniaru newid hinsawdd ac addasu iddo ac atal a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Mae’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol hon yn adeiladu ar y darpariaethau presennol mewn fframwaith deddfwriaethol ehangach yng Nghymru ac yn eu cryfhau, gan siapio sut mae cyrff cyhoeddus yn cynllunio, yn gwneud penderfyniadau ac yn cyfrif am ganlyniadau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015) (“Deddf 2015”) yn darparu’r dull cyffredinol o ymdrin â datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae’n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant sy’n nodi sut y bydd y corff perthnasol yn cynyddu ei gyfraniad at y nodau llesiant a ddiffinnir yn Neddf 2015, a chymryd pob cam rhesymol i’w cyflawni. Mae’r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy’n golygu gweithredu mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cymhwyso’r pum ffordd o weithio. Yn gryno, nod y rhain yw ystyried y tymor byr a’r tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Mae cynnwys yn golygu cynnwys pobl sy’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff. Yn gyffredinol, y diben yw gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol Cymru.

Ochr yn ochr â hyn, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (“Deddf yr Amgylchedd”) yn sefydlu fframwaith Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae’n cynnwys yr egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a darpariaethau eraill sy’n hyrwyddo dull rheoli ar lefel ecosystemau (dull ecosystemau) ac yn adeiladu gwydnwch ecosystemau. Mae mecanweithiau allweddol yn Neddf yr Amgylchedd yn cynnwys:

- y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, sy’n nodi polisïau a blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, sy’n cael ei baratoi gan CNC ac yn darparu tystiolaeth o sefyllfa adnoddau naturiol ac yn helpu i lywio blaenoriaethau; a
- datganiadau ardal, sy’n cael eu paratoi gan CNC ac sy’n helpu i weithredu’r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol drwy gymhwyso blaenoriaethau cenedlaethol i leoedd lleol a chefnogi cydgyflawni.

Mae Deddf yr Amgylchedd hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

Gyda'i gilydd, mae'r Deddfau hyn yn darparu cyfeiriad cadarn ar gyfer ymgorffori ystyriaeth o'r amgylchedd yn y broses gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Maent yn cefnogi penderfyniadau cydgysylltiedig sy'n cydnabod sut y mae canlyniadau sy'n ymwneud ag ecosystemau, bioamrywiaeth, a newid hinsawdd yn rhyngweithio â meysydd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn ogystal â meysydd amgylcheddol, yn hytrach na mynd i'r afael â materion ar wahân.

Mae'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn ategu'r darpariaethau presennol hynny drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a CNC, wrth lunio polisïau, ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill, wrth gynnal asesiad amgylcheddol strategol, gymhwyso'r pedair egwyddor amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Gyda'i gilydd, mae'r gofynion hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau cyson a thryloyw. Maent yn helpu cyrff cyhoeddus i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, cefnogi lliniaru newid hinsawdd ac ymateb iddo, ac atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth.

Mae'r pedair egwyddor amgylcheddol, a'r gofyniad i integreiddio diogelu'r amgylchedd, yn ddarpariaethau sylfaenol o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a oedd yn gymwys yng Nghymru cyn i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Ar 1 Mai 2021, daeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE i rym, gan nodi telerau'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae'r Cytundeb yn cydnabod ymrwymiad y partïon i weithredu ar newid hinsawdd ac i wella eu safonau o ran diogelu'r amgylchedd ac mae'n cynnwys ymrwymiadau penodol i barchu'r egwyddorion amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn helpu i weithredu'r ymrwymiadau hyn.

Mae'r dyletswyddau i gymhwyso'r egwyddorion ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd, yn gymwys i lunio polisïau ar draws holl feysydd polisi Gweinidogion Cymru a CNC, nid dim ond y rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r amgylchedd. Maent hefyd yn berthnasol i ystod eang o awdurdodau cyhoeddus wrth gynnal asesiadau amgylcheddol strategol. Mae'r dull cyfannol hwn yn sicrhau bod ystyried yr egwyddorion a diogelu'r amgylchedd yn cael ei ymwreiddio yn y gwaith o gynllunio a datblygu polisïau, ac asesu cynlluniau a rhaglenni perthnasol o safbwynt amgylcheddol, gan hyrwyddo lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella ein hamgylchedd sy'n hanfodol i Gymru.

Mae'r Datganiad hwn yn esbonio sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cydymffurfio â'u dyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd ac mae'n darparu canllawiau i CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill ynghylch sut i gydymffurfio â'u priod ddyletswyddau, yn unol ag adran 6 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol.

## Strwythur y Datganiad Egwyddorion Amgylcheddol ac Integreiddio Diogelu'r Amgylchedd

Mae **Rhan A: Egwyddorion Amgylcheddol ac Integreiddio Diogelu'r Amgylchedd** yn nodi materion sy'n gymwys ar draws y Datganiad hwn. Mae'n rhoi trosolwg o'r amcan amgylcheddol, y ddyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd. Mae'n esbonio sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ymwneud â'i gilydd a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd a sut y mae'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol yn ymwneud â'i gilydd.

Mae **Rhan B: Dyletswyddau Gweinidogion Cymru wrth lunio polisi** yn canolbwyntio ar sut y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig cydymffurfio â'u dyletswyddau llunio polisi o dan adran 3 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol a materion cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys pryd mae'r ddyletswydd adran 3 yn gymwys (a'r trothwy "dim effaith neu effaith ddibwys"), beth sy'n cyfrif fel "polisi" at y dibenion hyn a sut y mae'r ddyletswydd i roi "sylw arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn gweithredu wrth lunio polisi. Mae hefyd yn esbonio sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn ymwneud â'i gilydd ac â'r amcan amgylcheddol, sut y mae'r ddyletswydd adran 3 yn rhyngweithio â phwerau a dyletswyddau eraill (er enghraifft, rhwymedigaethau statudol eraill a phrosesau asesu effaith) a sut y dylid dangos cydymffurfiaeth.

Mae **Rhan C: Canllawiau i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** yn darparu canllawiau i CNC ac yn esbonio sut i gydymffurfio â'r ddyletswydd llunio polisi yn erthygl 4A(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (a fewnosodwyd gan adran 4 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol). Mae hyn yn cynnwys sut i roi "sylw arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol, sut i integreiddio diogelu'r amgylchedd (gan gyfeirio at Ran A) a sut y mae'r ddyletswydd yn ymwneud â rôl ehangach a diben cyffredinol CNC ynghylch rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r Rhan hon hefyd yn esbonio'r berthynas rhwng dyletswydd llunio polisi CNC â phwerau a dyletswyddau eraill a sut y dylai CNC ddangos cydymffurfiaeth.

Mae **Rhan D: Canllawiau i awdurdodau cyhoeddus penodol sy'n ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)** yn darparu canllawiau i awdurdodau cyhoeddus penodol ac yn esbonio sut i gydymffurfio â'u dyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth ymgymryd ag AAS, yn unol â'r ddyletswydd o dan adran 5(1) o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol. Mae'n esbonio sut y mae'r ddyletswydd yn gymwys drwy broses AAS drwyddi draw o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (ac unrhyw ddarpariaethau disodli). Mae'n nodi sut y dylai awdurdodau cyhoeddus penodol roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd ym mhob cam o AAS, o gwmpasu a chasglu gwybodaeth sylfaenol i asesu dewisiadau amgen, paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol, ymgynghori a monitro. Mae hefyd yn esbonio sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd integreiddio yn ymwneud â'r amcan amgylcheddol, sut y mae'r ddyletswydd adran 5(1) yn ymwneud â phwerau a dyletswyddau eraill a sut y dylid dangos cydymffurfiaeth drwy ddogfennaeth AAS bresennol, gan gynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol.

Rhaid darllen pob un o Rannau B, C a D gyda Rhan A, sy'n drawsbynciol.

# Rhan A: Egwyddorion Amgylcheddol ac Integreiddio Diogelu'r Amgylchedd

1. Mae amgylchedd iach yn hanfodol i'n llesiant. Mae'n cefnogi ein ffyniant, ein hiechyd ac mae'n rhan allweddol o'n diwylliant a'n hunaniaeth. Mae'n darparu'r adnoddau naturiol sy'n sylfaenol i'n bywydau a'n bywoliaethau, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rydym yn dibynnu ar ein hadnoddau naturiol ar gyfer deunyddiau crai, bwyd, dŵr ac ynni; o'n hanghenion unigol i anghenion ein diwydiannau allweddol.

2. Bydd llywodraethiant amgylcheddol effeithiol yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd ac yn ein galluogi i fynd i'r afael â newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a difrod arall i'r amgylchedd.

3. Bydd Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ("y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol") yn cryfhau mesurau diogelu'r amgylchedd i sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar draws penderfyniadau Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") ac awdurdodau cyhoeddus wrth gefnogi arloesi a datblygu cynaliadwy sydd wedi'u teilwra i anghenion Cymru.

## Trosolwg o Ran 1 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol: amcan ac egwyddorion amgylcheddol

4. Mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer amcan amgylcheddol, sef cyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd (Adran 1 (1) (a-d)). Mae Rhan 1 hefyd yn sefydlu pedair egwyddor amgylcheddol. Mae'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol i gymhwyso'r egwyddorion hynny ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd.

5. Bydd y dyletswyddau hyn yn helpu i gyflawni nodau a thargedau pwysig Llywodraeth Cymru a nodau a thargedau amgylcheddol eraill, yn ogystal â chyfrannu at weithredu ymrwymiadau a chytundebau rhyngwladol yn effeithiol.

6. Mae'r datganiad egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd hwn (y "Datganiad") yn esbonio sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd. Mae'r Datganiad hefyd yn darparu canllawiau i CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill ar sut i gydymffurfio â'u dyletswyddau i gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Dyma'r egwyddorion amgylcheddol:

    a) yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;
    b) yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd;
    c) yr egwyddor y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro unrhyw ddifrod amgylcheddol yn y ffynhonnell;
    d) yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

7. Rhaid i Weinidogion Cymru a CNC roi sylw arbennig i’r egwyddorion wrth lunio polisi mewn perthynas â Chymru, gan sicrhau bod yr egwyddorion yn cael eu hystyried wrth lunio polisi, gan gynnwys cynigion deddfwriaethol.

8. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus penodol eraill (a esbonnir ymhellach yn Rhan D) roi sylw i’r egwyddorion wrth gynnal asesiad amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni sy’n ymwneud yn unig â Chymru neu unrhyw ran o Gymru o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, y cyfeirir atynt yn gyffredin fel ‘Asesiad(au) Amgylcheddol Strategol’ neu “AAS”, neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol sy’n disodli’r Rheoliadau hynny.

9. Mae’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol hefyd yn cyflwyno dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a CNC wrth lunio polisi, ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill wrth ymgymryd ag AAS, i integreiddio diogelu’r amgylchedd.

10. Mae’r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, ac ar awdurdodau cyhoeddus penodol wrth ymgymryd ag AAS, yn cael eu hategu gan yr amcan amgylcheddol, sy’n llywio’r broses o gymhwyso a gweithredu’r dyletswyddau hynny. Ym mhob achos, rhaid arfer y dyletswyddau hynny at ddibenion cyfrannu at yr amcan amgylcheddol.

11. Mae gan CNC ei ddiben cyffredinol ei hun eisoes sydd â’r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac sy’n ategu’r amcan amgylcheddol. Felly nid yw’r amcan amgylcheddol yn gymwys i’r dyletswyddau ar CNC.

12. Ystyrir y darpariaethau hyn yn fanylach isod.

## Diben y Datganiad

13. Mae’r ddogfen hon wedi’i pharatoi a’i chyhoeddi yn unol â dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan adrannau 6 a 7 o’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol a dylid ei darllen ochr yn ochr â’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol er mwyn helpu i ddeall y darpariaethau perthnasol a’u heffaith.

14. Mae’r Datganiad yn esbonio’r materion sy’n ofynnol gan adran 6(1) ac yn darparu canllawiau i CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill yn unol ag adran 6(2) a (3), yn y drefn honno. Yn unol ag adran 6(4), mae’r Datganiad hefyd yn cynnwys materion eraill y mae Gweinidogion Cymru o’r farn eu bod yn briodol.

15. Mae’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol i roi sylw i’r Datganiad, neu i ganllawiau yn y Datganiad (fel y digwydd), wrth gymhwyso eu priod ddyletswyddau i gymhwyso’r egwyddorion ac i integreiddio diogelu’r amgylchedd.

16. Mae dyletswydd i “roi sylw” yn derm cyffredin mewn deddfwriaeth, a’i ystyr yw’r sylw sy’n briodol o dan yr holl amgylchiadau. Rhaid arfer y ddyletswydd yn ei sylwedd, gyda thrylwyredd a meddwl agored.

17. Yn y Datganiad hwn, mae Rhan A yn ymdrin â materion ‘trawsbynciol’ yr ystyrir eu bod yn berthnasol i’r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill yn Rhan 1 o’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol. Mae Rhannau B, C a D yn rhoi mwy o fanylion ar agweddau penodol ar gymhwyso’r dyletswyddau mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol, yn y drefn honno.

## Trefniadau Gweithdrefnol

18. Roedd y gwaith o baratoi’r Datganiad hwn yn cynnwys ymarfer ymgynghori cyhoeddus, a gynhaliwyd rhwng 19 Mehefin 2026 a 11 Medi 2026. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad, crynodeb o’r sylwadau a gafwyd ac ymateb Gweinidogion Cymru ar gael yn xx. Gosodwyd y Datganiad ar ffurf ddrafft gerbron y Senedd ar xx [dyddiad], ynghyd â dogfen yn rhoi manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd.

19. Cafodd y Datganiad ei gwblhau’n derfynol, ei gyflwyno gerbron y Senedd a’i gyhoeddi ar xx [dyddiad].

20. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu’r Datganiad hwn ar ôl pob etholiad cyffredinol, a chânt ei adolygu ar unrhyw adeg arall. Ar ôl adolygu’r Datganiad, caiff Gweinidogion Cymru ei ddiwygio yn unol â’r gofynion gweithdrefnol a nodir yn y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol.

## Diffiniadau Allweddol

21. Mae adran 44 o’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn nodi rhai diffiniadau sydd hefyd yn gymwys i’r Datganiad hwn. Mae’r rhain yn cynnwys diffiniadau o “amgylchedd” a “diogelu’r amgylchedd”, sydd wedi’u cynnwys isod er gwybodaeth:

22. Diffinnir “amgylchedd” fel:

   a) aer, dŵr a thir (gan gynnwys cramen y ddaear),
   b) planhigion, anifeiliaid gwyllt ac organeddau byw eraill a’u cynefinoedd, ac
   c) y systemau naturiol, y cylchoedd naturiol a’r prosesau naturiol y mae’r pethau ym mharagraffau (a) a (b) yn rhyngweithio drwyddynt.

23. Diffinnir “diogelu’r amgylchedd” fel:

   a) diogelu’r amgylchedd rhag effeithiau gweithgarwch dynol;
   b) cynnal, adfer neu wella’r amgylchedd;
   c) diogelu pobl, a’u hiechyd yn benodol, rhag effeithiau gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd;
   d) monitro, asesu neu ystyried unrhyw beth ym mharagraffau (a) i (c) neu gynghori neu adrodd arno.

## Yr amcan amgylcheddol

24. Sefydlodd adran 1 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol amcan amgylcheddol sy'n mynegi'r uchelgais polisi ac yn llywio'r broses o weithredu'r dyletswyddau i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

25. Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth lunio polisi, ac awdurdodau cyhoeddus penodol, wrth gynnal AAS, gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd, at ddiben cyfrannu at yr amcan amgylcheddol. Nid yw'r amcan amgylcheddol yn gymwys i'r dyletswyddau a gyflwynwyd ar gyfer CNC, sydd yn hytrach yn cael ei arwain gan ei 'ddiben cyffredinol' i fynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (fel y manylir ymhellach yn Rhan C o'r ddogfen hon).

26. Ffocws yr amcan amgylcheddol yw cyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys darparu safon neu drothwy sy'n diogelu'r amgylchedd, gyda'r nod o atal difrod a chyfrannu at amgylchedd iach, amrywiol a gwydn. Er mwyn cyflawni lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd, bydd angen polisïau ac AAS rhagweithiol a chynhwysfawr sydd wedi'u targedu ac sy'n seiliedig ar egwyddorion amgylcheddol cryf ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth ddatblygu a gweithredu polisi a gwneud penderfyniadau perthnasol. Bydd hyn yn cael ei lywio gan ystod o dargedau a dangosyddion amgylcheddol sy'n ysgogi gweithredu i ddiogelu adnoddau naturiol a'u rheoli'n effeithiol a gwella ansawdd yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, ac yn helpu i gyflawni'r targedau a'r dangosyddion hynny.

27. Nid yw cyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd o reidrwydd yn galw am y lefel uchaf o ran diogelu (nad yw'n briodol efallai). Yn hytrach mae'n annog dull cadarn ac uchelgeisiol o ddiogelu'r amgylchedd, gan gynnwys diogelu pobl a'u hiechyd, sy'n gofyn am fwy na dull 'gwneud yr isafswm'.

28. Mae diogelu pobl rhag effeithiau gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd yn cynnwys:

   a) atal niwed i iechyd pobl o weithgarwch dynol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd pobl yn dod i gysylltiad â pheryglon iechyd yr amgylchedd nawr a/neu yn y dyfodol (er enghraifft, llygredd aer/dŵr/tir/sŵn/golau, llifogydd, tymheredd eithafol); a
   b) atal niwed i iechyd pobl o weithgarwch dynol sy'n lleihau mynediad at fanteision yr amgylchedd i iechyd (er enghraifft, mannau gwyrdd naturiol hygyrch, mwynhau bywyd gwyllt, cân yr adar, gorchudd coed trefol sy'n darparu cysgod, amddiffyniad naturiol rhag llifogydd, cyfleoedd ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd, ymarfer corff ym myd natur a manteision i lesiant corfforol a meddyliol yn fwy cyffredinol).

29. Wrth gymryd camau i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol yn unol â'r dyletswyddau perthnasol, mae'n bwysig cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd i iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl.

30. Mae ansawdd aer a dŵr, pa mor ddeniadol yw ardal, diogelwch cymunedol a mynediad, argaeledd ac ansawdd mannau gwyrdd a glas yw megis rhai o'r ffactorau amgylcheddol a gydnabyddir fel ffactorau pwysig i iechyd a llesiant.

31. Wrth gymryd camau yn unol â’r dyletswyddau perthnasol i ddiogelu pobl, yn enwedig eu hiechyd, rhag effeithiau gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd, dylid rhoi ystyriaeth briodol i anghydraddoldebau iechyd a brofir gan rai grwpiau poblogaeth. Mae canllaw [Rheoliadau Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025 ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru] yn nodi rhai grwpiau poblogaeth sy’n fwy agored i anghydraddoldebau iechyd. Mae’n nodi bod sensitifrwydd i effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol, cyd-destun a natur cynnig, ac efallai y bydd angen canolbwyntio ar grwpiau sy’n wynebu anfanteision lluosog. Mae’r grwpiau poblogaeth y mae’r canllawiau yn eu rhestru ar gyfer ystyriaeth arbennig yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor, pobl â chyflyrau iechyd meddwl a phobl ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu.

32. Drwy ganolbwyntio ar “wella’r amgylchedd”, mae’r amcan amgylcheddol hefyd yn pwysleisio newid cadarnhaol dros amser sy’n mynd y tu hwnt i gynnal neu gadw’r sefyllfa bresennol. Gall hyn, er enghraifft, fynd y tu hwnt i’r gofynion statudol gofynnol. Yn ymarferol, mae hyn yn aml ar ffurf adfer, gwella neu adfywio. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys mesurau i adfer mawndiroedd i gynyddu atafaelu carbon, adfer bioamrywiaeth a lliniaru effeithiau newid hinsawdd e.e. llifogydd.

33. Yn ogystal, mae’r amcan amgylcheddol yn pwysleisio sawl canlyniad penodol a fydd yn deillio o gyfrannu, drwy gymhwyso’r dyletswyddau perthnasol, at ei gyflawni. Mae’r canlyniadau a nodir yn adran 1(1)(a) i (d) o’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn adlewyrchu agweddau ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau polisi eraill.

- **Diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (“Deddf 2015”) (adran 1(1)(a)).**
  Mae’r ddarpariaeth hon yn sefydlu cysondeb â Deddf 2015 ac yn cefnogi ei gweithredu’n ehangach drwy sicrhau bod lefel uchel o ran diogelu’r amgylchedd a gwella’r amgylchedd yn hanfodol i gyflawni’r nodau llesiant er budd cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol. Gall polisïau a chamau eraill a gymerir i gyflawni amgylchedd gwell gyfrannu ar draws nodau llesiant Deddf 2015 drwy gyfleoedd a manteision amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol. Nid yw adran 1(1)(a) yn gwanhau pwysigrwydd sicrhau lefel uchel o ran diogelu’r amgylchedd ac mae’n sicrhau bod diogelu’r amgylchedd a gwelliannau i’r amgylchedd yn rhan annatod o wella llesiant pobl a chyflawni datblygu cynaliadwy.

- Mae **cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a’r buddion y maent yn eu darparu (adran 1(1)(b))** yn rhan hanfodol o’r fframwaith polisi ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, a sefydlwyd gan Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (“Deddf yr Amgylchedd”). Mae “dull ecosystemau” yn ceisio hyrwyddo ecosystemau iach a gweithredol sy’n gallu amsugno aflonyddwch a darparu buddion dros y tymor hir. Mae’r dull hwn yn hyrwyddo gwneud penderfyniadau cyfannol yn hytrach na

mynd i'r afael â materion ar wahân. Mae adran 1(2) yn nodi ffactorau sy'n berthnasol i wydnwch ecosystemau. Mae hyn yn ategu'r ddarpariaeth bresennol yn Neddf yr Amgylchedd (adran 4(i)) a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("y Ddeddf Amaethyddiaeth") (adran 1(7)).

- Mae **lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo (adran 1(1)(c))** yn cynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a thynnu carbon o'r atmosffer, a chymryd mesurau i leihau effeithiau newid hinsawdd.

- Mae **cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth (adran 1(1)(d))** yn hanfodol i wydnwch ecosystemau ac i gyflawni lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd. Bydd atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni, er enghraifft, atal colli cynefinoedd, gwarchod rhywogaethau sydd mewn perygl ac adfer ecosystemau sydd wedi dirywio.

34. Mae'r canlyniadau hyn yn cyflenwi ac yn cefnogi ei gilydd. Nid ydynt yn cwmpasu pob un dim, a chydnabyddir y gall cyflawni lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella ansawdd yr amgylchedd hefyd gyflawni canlyniadau a buddion eraill.

35. Er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol, mae amrywiaeth o dargedau wedi'u gosod (neu y byddant yn cael eu gosod) ar lefelau Cymru, y DU a rhyngwladol a fydd, os cânt eu cyflawni, yn cyfrannu at lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd, gwella'r amgylchedd, neu'r ddau. Mae'r targedau i'w cyflawni drwy ystod o strategaethau, cynlluniau a dogfennau polisi eraill. Mae enghreifftiau o'r targedau hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

**Targedau hinsawdd**

- Gostyngiad net o 100% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2050, gostyngiad o 89% yn 2040 a gostyngiad o 63% yn 2030 (o linell sylfaen 1990/1995, yn dibynnu ar y nwy tŷ gwydr).
- Mae cyllidebau carbon yn gosod terfyn ar allyriadau nwyon tŷ gwydr net yng Nghymru dros gyfnod o bum mlynedd. Rhaid gosod targedau mewn rheoliadau o leiaf bum mlynedd cyn dechrau'r cyfnod. Mae Cyllideb Garbon 3 (2026-30) yn gofyn am ostyngiad o 58% ar gyfartaledd ac mae Cyllideb Garbon 4 (2031-35) yn gofyn am ostyngiad o 73% ar gyfartaledd yn is na'r llinell sylfaen.

**Targedau ansawdd aer:**

- O dan Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau nad yw lefelau rhai llygryddion penodol yn fwy na'r gwerthoedd terfyn penodedig er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Mae'r llygryddion allweddol yn cynnwys sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, bensen, carbon monocsid, plwm, $PM_{10}$ a $PM_{2.5}$.
- Nod Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 yw lleihau llygredd aer trawsffiniol drwy osod ymrwymiadau lleihau allyriadau ar gyfer rhai llygryddion penodol gyda'r DU.
- Bydd targedau hefyd yn cael eu gosod mewn rheoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (ar gyfer deunydd gronynnol mân $PM_{2.5}$ erbyn mis Chwefror 2027 a tharged

hirdymor ar gyfer un o'r llygryddion canlynol erbyn mis Chwefror 2030: amonia; deunydd gronynnol ($PM_{10}$); osôn ar lefel y ddaear; nitrogen deuocsid; carbon monocsid; sylffwr deuocsid).

**Targedau, safonau ac amcanion ansawdd dŵr** megis y safonau a'r amcanion a nodir o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.

Nodwyd dangosyddion a thargedau ar gyfer y pedwar **amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy** a sefydlwyd gan y Ddeddf Amaethyddiaeth yn y Datganiad Dangosyddion a Thargedau Rheoli Tir yn Gynaliadwy a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025.

**Targedau Bioamrywiaeth** a fydd yn cael eu sefydlu mewn rheoliadau a wneir o dan y fframwaith targedau bioamrywiaeth a fewnosodir yn Neddf yr Amgylchedd gan Ran 3 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol. Rhaid gosod targedau o dan y pedwar maes blaenoriaeth a nodir yn adran 6C o Ddeddf yr Amgylchedd; lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol; rheoli ecosystemau yn effeithiol; lleihau llygredd; ac ansawdd y dystiolaeth er mwyn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso. Rhaid cyflwyno rheoliadau targed drafft gerbron y Senedd o fewn 2 flynedd i'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol gael Cydsyniad Brenhinol.

**Ailgylchu:** targed i ailgylchu o leiaf 70% o'r gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol erbyn 2025.

36. Disgwylir i benderfynwyr polisi ac AAS ystyried a chofnodi sut y mae cymhwyso eu priod ddyletswyddau o dan Ran 1 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn cyfrannu at lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd ac yn gwella'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys sut y mae'r polisi neu'r penderfyniad yn cyfrannu at unrhyw dargedau amgylcheddol perthnasol a / neu'r cynlluniau a'r strategaethau a'r dogfennau polisi eraill sy'n eu cyflawni. Os nad oes unrhyw gyfraniad at dargedau amgylcheddol perthnasol, dylid esbonio hyn.

## Dyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd

37. Mae'r dyletswyddau a gyflwynir ar gyfer Gweinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol gan Ran 1 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylchedd yn cynnwys gofyniad i integreiddio diogelu'r amgylchedd (yn adran 3(1)(b), erthygl 4A(1)(b) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ("Gorchymyn Sefydlu CNC") (a fewnosodwyd gan adran 4(2)) ac adran 5(1)(b), yn y drefn honno). Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu'r amgylchedd gael ei integreiddio drwy'r broses o lunio polisïau ym mhob un o bolisïau Gweinidogion Cymru a CNC, a thrwy AASau a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus penodol.

38. Mae'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn golygu, ochr yn ochr â'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol, y dylid hefyd archwilio'n gadarnhaol

gyfleoedd drwy'r broses o lunio polisi ac AAS i ymgorffori cynifer o fesurau â phosibl i ddiogelu, cynnal, adfer neu wella'r amgylchedd ac i ddiogelu pobl, yn enwedig eu hiechyd, rhag effeithiau gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd. Dylid archwilio cyfleoedd i ymgorffori mecanweithiau monitro, asesu ac adrodd priodol i hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd ac i gefnogi adeiladu ac adolygu tystiolaeth.

39. Mae'r ddyletswydd integreiddio yn sicrhau nad yw pryderon amgylcheddol a diogelu'r amgylchedd yn ôl-ystyriaeth ond yn ganolog i'r broses o lunio polisi a gwneud penderfyniadau. Mae'r ddyletswydd integreiddio hefyd yn creu cyfleoedd nid yn unig i atal, lleihau a/neu liniaru difrod drwy gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol, ond hefyd i wella diogelu'r amgylchedd. Y nod yw cael canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol ar ôl cymhwyso'r ddyletswydd. Ystyrir cymhwyso'r ddyletswydd integreiddio ymhellach isod.

## Yr egwyddorion amgylcheddol

40. Mae adran 2 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn nodi rhai egwyddorion amgylcheddol, a ddisgrifir isod.

### *Yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol*

41. Mae'r egwyddor atal yn golygu y dylai'r broses o wneud penderfyniadau bob amser geisio atal difrod amgylcheddol.

42. Mae'r egwyddor atal yn sylfaenol bwysig er mwyn sicrhau bod difrod amgylcheddol yn cael ei osgoi. Mae'n fwyaf effeithiol pan fydd camau'n cael eu cymryd yn gynnar cyn i ddifrod ddigwydd. Mae'r egwyddor atal yn canolbwyntio ar atal difrod rhag digwydd, yn hytrach nag atgyweirio difrod ar ôl iddo ddigwydd ac, o ganlyniad, mae'n ceisio osgoi dirywiad amgylcheddol efallai na fyddai modd ei wrthdroi fel arall neu sy'n rhy ddrud i'w atgyweirio. Yn y modd hwn, mae atal difrod amgylcheddol yn amserol yn cyfrannu at lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gall arwain at fuddion cymdeithasol ac economaidd gan y gall difrod amgylcheddol arwain at ganlyniadau sylweddol i bobl a natur. Er enghraifft, gall fod yn fwy costus i lanhau neu unioni difrod ar ôl iddo ddigwydd, os yw unioni'n bosibl o gwbl.

43. Lle gall difrod amgylcheddol ddigwydd, dylid diffinio'r risgiau yn glir er mwyn rhagweld a gweithredu mesurau ataliol priodol.

44. Wrth gymhwyso'r egwyddor atal, bydd angen asesu'r difrod amgylcheddol posibl (a all fod ar fwy nag un ffurf) ac yna ystyried sut y gellid atal hyn. Dylid gwneud hyn yn gynnar, cyn i unrhyw ddifrod ddigwydd, neu gyn gynted â phosibl os yw'r difrod eisoes wedi digwydd. O dan amgylchiadau lle mae difrod eisoes wedi digwydd, dylid defnyddio'r egwyddor i atal difrod pellach rhag digwydd a sicrhau nad yw'r difrod yn gwaethygu neu'n lledaenu.

45. Os penderfynir na ellir osgoi rhywfaint o ddifrod amgylcheddol drwy gymryd camau penodol, dylid ystyried yn ofalus a ddylid bwrw ymlaen. Mewn rhai achosion, bydd yr amgylchiadau yn golygu bod ystyriaethau pwysig eraill neu ffactorau sy'n gwrthweithio, megis ystyriaethau iechyd y cyhoedd, costau

gormodol neu effeithiau eraill, yn arwain at rywfaint o ddifrod amgylcheddol na ellir ei osgoi i gyflawni'r amcanion polisi. Yn yr achos hwnnw, bydd yn briodol ystyried cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol eraill.

46. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, dylid ffafrio'r egwyddor atal yn gyffredinol, yn hytrach na chywiro'r difrod yn y tarddle a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, gan fod y ddwy egwyddor olaf hyn yn cael eu defnyddio mewn achosion pan na ellir atal difrod amgylcheddol. Bydd yr egwyddorion eraill yn aml yn cael eu defnyddio i gefnogi'r nod o atal difrod amgylcheddol.

47. Wrth gymhwyso'r egwyddor atal, argymhellir y dylech gymryd y camau canlynol:

- Cam 1 - Asesu difrod amgylcheddol posibl cam gweithredu penodol, gan ystyried tystiolaeth berthnasol. Bydd yr egwyddor ragofalus (gweler isod) yn cynorthwyo mewn achosion lle mae'r effaith yn ansicr.
- Cam 2 - Lle gall y cam gweithredu arfaethedig achosi difrod amgylcheddol, dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried a oes unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol a all gyflawni'r canlyniad a ddymunir ac a fyddai'n arwain at ddim difrod neu at fudd i'r amgylchedd. Dylid pwyso a mesur y dewisiadau amgen hyn yn erbyn y nodau polisi gwreiddiol ac unrhyw gostau a manteision.
- Cam 3 - Os nad oes dewisiadau amgen rhesymol a all osgoi difrod neu fod o fudd i'r amgylchedd, dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried beth allai helpu i leihau'r effeithiau ar yr amgylchedd. Dylid ystyried pa fesurau y gellir eu cymryd i leihau a/neu liniaru'r effeithiau ar yr amgylchedd, gan gynnwys cymhwyso'r egwyddorion eraill yn briodol.
- Cam 4 - Pan gymerir camau a fydd yn cael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, ond bod mesurau wedi'u cymryd i leihau neu liniaru'r effeithiau hynny, dylid monitro dulliau gweithredu i sicrhau bod y mesurau hynny'n llwyddiannus. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod yn barod i gymryd unrhyw gamau pellach os oes angen.

## *Yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd*

48. Mae'r egwyddor ragofalus yn golygu, lle mae bygythiadau o ddifrod difrifol neu na ellir ei wrthdroi i'r amgylchedd, ni ddylid defnyddio diffyg sicrwydd gwyddonol llwyr fel rheswm dros ohirio mesurau costeffeithiol i atal neu leihau dirywiad amgylcheddol.

49. Mae'r egwyddor ragofalus yn bwysig wrth ystyried pryd a sut i weithredu lle mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael ynghylch tebygolrwydd a/neu ddifrifoldeb difrod amgylcheddol yn destun rhywfaint o ansicrwydd gwyddonol.

50. Mae cymhwyso'r egwyddor ragofalus yn caniatáu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ymdrin ag ansicrwydd gwyddonol ynghylch tystiolaeth o ddifrod amgylcheddol posibl, asesu'r risgiau posibl a chymryd camau i atal neu leihau difrod.

51. Mae cymhlethdod prosesau ecolegol yn golygu y bydd ansicrwydd cynhenid yn aml yn effeithiau penderfyniadau ar yr amgylchedd. Felly, mae'r egwyddor

ragofalus yn darparu fframwaith pwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau i atal dirywiad amgylcheddol, yn enwedig yn achos digwyddiadau effaith uchel megis, er enghraifft, newid hinsawdd.

52. Wrth gymhwyso’r egwyddor ragofalus, bydd angen i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau asesu a phwyso a mesur risgiau difrod amgylcheddol gwahanol opsiynau gan ddefnyddio’r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael ac yna cymryd camau i atal y difrod hwnnw. Un agwedd sylfaenol ar yr egwyddor yw bod lefel yr ansicrwydd yn pennu’r lefel dderbyniol o risg. Wrth i’r risg debygol o ddifrod difrifol gynyddu, mae lefel y sicrwydd sy’n angenrheidiol cyn cymryd camau yn lleihau.

53. Pan fo bylchau yn y sylfaen dystiolaeth wyddonol, ni ddylid defnyddio hyn fel rheswm dros beidio â gweithredu os oes risg gredadwy o ddifrod difrifol neu na ellir ei wrthdroi. Gall cyflawni sicrwydd gwyddonol gymryd cryn dipyn o amser a, lle mae’r risg amgylcheddol yn un ddifrifol neu’n un na ellir ei gwrthdroi, gallai peidio â gweithredu gynyddu’r risg o ddifrod neu achosi neu waethygu’r difrod posibl.

54. Serch hynny, er mwyn cymhwyso’r egwyddor ragofalus, mae angen tystiolaeth gredadwy sy’n dangos bod y risg o ddifrod difrifol neu na ellir ei wrthdroi yn gredadwy ac yn sylweddol. Wrth ystyried mesurau i atal neu leihau difrod amgylcheddol, dylid arfarnu’r opsiynau hyn i asesu eu buddion net disgwyliedig. Yn unol â hynny, ni ddylid arfer yr egwyddor ragofalus yn seiliedig ar ddyfalu yn unig, ac nid yw’n ofynnol i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau ddangos bod y polisi’n gwbl ddi-risg er mwyn bwrw ymlaen.

55. Wrth gymhwyso’r egwyddor ragofalus, argymhellir y dylech gymryd y camau canlynol:

- Cam 1 - Casglu’r dystiolaeth orau sydd ar gael o’r difrod amgylcheddol posibl a allai ddeillio o gam gweithredu arfaethedig, gan gynnwys tystiolaeth o unrhyw ansicrwydd.
- Cam 2 - Gwerthuso’r dystiolaeth i sefydlu graddau’r ansicrwydd gwyddonol ynghylch difrifoldeb a/neu debygolrwydd difrod amgylcheddol.
- Cam 3 - Cynnal asesiad risg o’r difrod amgylcheddol posibl yn seiliedig ar y dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael. Dylid deall risg yn yr achos hwn fel cyfuniad o’r tebygolrwydd y bydd y difrod amgylcheddol yn digwydd a’i ddifrifoldeb.
- Cam 4 - Ystyried mesurau rhagofalus i atal neu leihau’r risg o ddifrod drwy ymgysylltu â phartïon â buddiant fel y bo’n briodol.

## *Yr egwyddor y dylid cywiro difrod amgylcheddol fel mater o flaenoriaeth yn y tarddle*

56. Mae’r egwyddor cywiro yn y tarddle yn golygu y dylid mynd i’r afael â difrod amgylcheddol, fel mater o flaenoriaeth, yn ei darddle, yn hytrach nag yn yr amgylchedd ehangach. Ochr yn ochr â’r egwyddor mai’r llygrwr sy’n talu, gellir ei ddefnyddio i sicrhau bod llygrwyr yn cael eu dwyn i gyfrif am gostau’r difrod amgylcheddol y maent yn ei achosi. Gellir ei ddefnyddio i flaenoriaethu gweithredu yn y tarddle ar draws ystod o feysydd (er enghraifft, cynhyrchu

gwastraff, datgoedwigo a llygredd) lle na ellir atal difrod amgylcheddol yn gyfan gwbl neu le mae wedi digwydd eisoes.

57. Drwy ei gwneud yn ofynnol mynd i'r afael â difrod amgylcheddol lle mae'n digwydd, mae'r egwyddor hefyd yn annog arferion sy'n dileu neu'n lleihau difrod amgylcheddol ehangach. Gallai hyn fod, er enghraifft, drwy gymell dulliau cynhyrchu glanach, defnydd tir cynaliadwy a thechnolegau rheoli llygredd yn hytrach na dulliau adweithiol (sydd fel arfer yn fwy costus) megis gwaith glanhau neu ddigolledu.

58. Mae'r egwyddor o gywiro difrod amgylcheddol yn y tarddle yn cefnogi camau ataliol a chywiro yn nharddle'r broblem a dylid ei ystyried pryd bynnag na ellir atal difrod yn llwyr.

59. Mae senarios enghreifftiol o ble y gellid cymhwyso'r egwyddor cywiro yn y tarddle yn cynnwys:

a) Mesurau mewn ymarfer amaethyddol, megis dulliau priodol o wasgaru i atal slyri rhag oferu dros yr wyneb i mewn i afonydd a nentydd.
b) Gosod a gorfodi safonau i leihau llygredd microblastig.
c) Lleihau dŵr glaw ffo i fynd i'r afael â llifogydd posibl drwy integreiddio seilwaith perthnasol mewn cynllunio trefol.
d) Defnyddio technolegau megis dal sylffwr mewn safleoedd diwydiannol i leihau difrod amgylcheddol yn ei darddle.

60. Er mwyn cymhwyso'r egwyddor o gywiro llygredd yn y tarddle, mae angen dealltwriaeth o'r difrod amgylcheddol a allai ddigwydd neu sydd wedi digwydd ac o ble mae'r difrod hwnnw'n tarddu. Yna dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried dichonoldeb cywiro'r difrod yn y tarddle.

## *Yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu*

61. Mae'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yn golygu mai llygrwyr ddylai fod yn gyfrifol am gostau'r difrod amgylcheddol y maent yn ei achosi.

62. Gall costau llygredd gynnwys mesurau sy'n ymwneud ag osgoi, cyfyngu neu leihau llygredd, yn ogystal â'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chyweirio. Bwriad yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yw sicrhau mai'r rhai sy'n achosi difrod amgylcheddol sy'n talu'r costau hyn, yn hytrach na'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) difrod na ellir ei osgoi neu sy'n cael ei achosi drwy ddamwain. Y bwriad yw sicrhau atebolrwydd am ddifrod amgylcheddol, cymell y llygrwr i leihau llygredd, hyrwyddo arferion cynaliadwy ac alinio â nodau amgylcheddol ehangach. Mae'n symud costau llygredd amgylcheddol i'r person sy'n achosi'r llygredd ac i ffwrdd o'r rhai yr effeithir arnynt a'r gymdeithas ehangach.

63. Gellir cymhwyso'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu i fynd i'r afael â difrod amgylcheddol ar ôl iddo ddigwydd, neu le mae bygythiad o ddifrod. Gall hefyd gael effaith ataliol drwy sicrhau bod llygrwyr posibl yn ystyried costau posibl cyweirio difrod amgylcheddol wrth ddylunio a gweithredu prosesau sy'n llygru,

neu a allai lygru. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cymryd mesurau ataliol pan fo bygythiadau uniongyrchol o ddifrod amgylcheddol, er mwyn ei atal neu ei leihau (er enghraifft, drwy osod rhwymedigaethau ar weithredwyr gweithgareddau sy'n achosi bygythiad uniongyrchol o ddifrod amgylcheddol yn unol â Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009).

64. Yn y modd hwn, gall yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu gyflawni gwahanol swyddogaethau yn dibynnu ar ble mae'n cael ei ddefnyddio yn y broses o wneud penderfyniadau. Er enghraifft, gellir ei ddefnyddio yn gynnar yn y broses o ddylunio polisi i gymryd mesurau ataliol lle mae bygythiadau o ddifrod amgylcheddol, gan greu effaith ataliol.

65. Wrth gymhwyso'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, bydd angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau nodi'r llygrwr/llygrwyr posibl a natur y gweithgareddau a allai lygru. Gall y llygrwr fod yn unigolyn, endid neu grŵp ar y cyd neu sector cyfan, ac efallai y bydd angen dulliau gwahanol yn seiliedig ar hyn.

66. Wrth wneud yr asesiad hwn, dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried y ffactorau sy'n achosi'r llygredd a'r parti, neu'r partïon, sy'n gyfrifol. Dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau arfer crebwyll rhesymol i ymdrin â chymhlethdodau ynghylch nodi'r llygrwr ac i ba raddau y dylai dalu am y difrod. Er enghraifft, a fyddai'r dull yn cynyddu budd amgylcheddol drwy gymell y newid ymddygiad angenrheidiol i atal difrod amgylcheddol yn y dyfodol? A yw'r dull yn deg ac yn rhesymol? A fyddai'r costau'n fwy effeithiol o'u codi ar unigolion neu grŵp, neu'r sector yn ei gyfanrwydd?

67. Bydd achosion cymhleth, er enghraifft, lle gall costau posibl llygredd ddigwydd dros lawer o flynyddoedd. Mewn achosion o'r fath, bydd angen ystyried a ddylid gwneud darpariaeth ariannol briodol tra bod y gweithgarwch economaidd yn dal i ddigwydd, megis drwy fond neu drefniant ariannol priodol arall.

68. Gyda'r wybodaeth hon, gall awdurdodau cyhoeddus asesu'r math o lygrwr a graddau'r difrod amgylcheddol a achoswyd gan y gweithgarwch, neu'r potensial am ddifrod, a phenderfynu faint y dylai'r llygrwr ei dalu. Er enghraifft, gellid paru'r taliad â lefel y difrod amgylcheddol a achoswyd a gall hefyd ystyried unrhyw gostau economaidd, cymdeithasol neu gymunedol eraill a manteision posibl y gweithgarwch perthnasol i gymdeithas.

69. Fodd bynnag, wrth benderfynu ar daliadau, rhaid i lunwyr polisi gydbwyso'r difrod a achoswyd yn erbyn ymarferoldeb ac effaith dwyn llygrwyr i gyfrif yn ariannol. Efallai na fydd adennill costau llawn yn ymarferol neu'n briodol ym mhob achos, felly efallai y bydd angen dulliau cyllido amgen.

70. Gall llygrwyr dalu'n uniongyrchol, er enghraifft, drwy ffioedd, taliadau neu dâl digolledu. Gallant hefyd dalu'n anuniongyrchol drwy gyflawni rhwymedigaethau rheoleiddiol neu gontractiol sy'n gofyn am fuddsoddiad ychwanegol i leihau difrod amgylcheddol. Efallai y bydd rhaid talu dirwyon os bydd y gofynion hyn yn cael eu torri.

71. O ystyried yr holl faterion sydd i'w hystyried, dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yn ofalus y ffordd orau o adennill costau difrod amgylcheddol ac atal rhagor o ddifrod amgylcheddol fesul achos. Gall hyn gynnwys nodi pwy yw'r llygrwr ac ystyried faint y dylai'r llygrwr ei dalu a sut y dylai dalu.

## Mae'r egwyddorion amgylcheddol yn cyd-fynd â'i gilydd a'r dyletswyddau i integreiddio diogelu'r amgylchedd

72. Mae'r dyletswyddau i integreiddio diogelu'r amgylchedd ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill (yn adran 3(1)(b), erthygl 4A(1)(b) o Orchymyn Sefydlu CNC ac adran 5(1)(b)) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr holl effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd a nodi a chynnwys mesurau priodol o ran diogelu'r amgylchedd. Fel y nodwyd ym mharagraffau 22 a 23 uchod, mae gan "diogelu'r amgylchedd" ac "amgylchedd" ystyron penodol o dan y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol (adran 44). Mae diogelu'r amgylchedd yn cynnwys diogelu'r amgylchedd a hefyd pobl rhag effeithiau gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd.

73. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried unrhyw effeithiau amgylcheddol gwirioneddol neu bosibl wrth wneud eu penderfyniadau, gan gynnwys unrhyw ddifrod amgylcheddol yn ogystal â chyfleoedd i wella'r amgylchedd. Dylid gwneud asesiadau drwy'r broses llunio polisi neu AAS o gyfleoedd i fynd i'r afael ag unrhyw ddifrod drwy gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac i weithredu mesurau diogelu'r amgylchedd eraill.

74. Rhaid cynnal asesiad gofalus o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd. Dylai hyn gynnwys unrhyw effeithiau cronnus neu gyfunol. Dylai'r camau a gymerir i integreiddio diogelu'r amgylchedd fod yn rhesymol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau. Er enghraifft, ni fydd angen gweithredu ym mhob achos yr holl fesurau diogelu posibl a nodwyd, ar yr amod bod hyn yn rhesymol ac yn briodol o dan yr holl amgylchiadau.

75. Dylid ystyried nid yn unig effeithiau economaidd cynigion, er enghraifft, o ran goblygiadau costau, ond hefyd fuddion ehangach (economaidd ac eraill) diogelu a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys, er enghraifft, o ran gwell ansawdd aer, pridd a dŵr a gwell canlyniadau iechyd, cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig.

76. Rhaid ystyried yr holl egwyddorion wrth gymhwyso'r dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol (gan adran 3(1)(a), ac erthygl 4A(1)(a) o Orchymyn Sefydlu CNC ac adran 5(1)(a)) yn y drefn honno. Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol rhoi mwy o effaith i un neu fwy o'r egwyddorion. Er nad yw'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn rhagnodi hierarchaeth ar gyfer yr egwyddorion, dylid ystyried yr egwyddor atal yn gyntaf fel arfer, gan ei bod bob amser yn well bod penderfyniadau yn ceisio atal difrod amgylcheddol. Dylid canolbwyntio ar atal difrod rhag digwydd, yn hytrach nag atgyweirio difrod ar ôl iddo ddigwydd, er y dylid cydnabod nad yw hyn bob amser yn bosibl.

77. Mae'r egwyddor atal yn ategu'r egwyddor ragofalus, sy'n gweithredu lle mae gwybodaeth yn llai sicr. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, dylid ffafrio'r egwyddor atal yn gyffredinol, yn hytrach na chywiro'r difrod yn y tarddle a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, gan fod y ddwy egwyddor olaf hyn yn cael eu defnyddio mewn achosion pan na ellir atal difrod amgylcheddol. Mae hyn oherwydd y gall fod sefyllfaoedd lle mae'n rhaid derbyn y risg o rywfaint o ddifrod amgylcheddol gan y byddai'n afresymol neu'n amhosibl atal pob difrod posibl. Mewn sefyllfaoedd lle mae difrod amgylcheddol naill ai'n parhau neu na ellir ei osgoi, dylid cymhwyso'r egwyddorion cywiro yn y tarddle a'r llygrwr sy'n talu i leihau, lliniaru neu atal difrod pellach.

78. Drwy neilltuo cyfrifoldeb clir am ddifrod amgylcheddol drwy'r egwyddorion cywiro yn y tarddle a'r llygrwr sy'n talu, gall polisïau hefyd helpu i atal difrod rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae'r atebolrwydd hwn yn annog pobl a sefydliadau i beidio ag achosi difrod, gan eu bod yn gwybod y byddant yn cael eu dwyn i gyfrif am y difrod a achosir. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r mesurau hyn yn ei gwneud yn haws i lygrwyr dalu am gyweirio yn hytrach nag osgoi achosi difrod yn y lle cyntaf.

79. Yn gryno, dylid blaenoriaethu'r egwyddor atal lle bo hynny'n bosibl, gyda'r nod o atal difrod amgylcheddol cyn iddo ddigwydd. Pan nad oes modd atal y difrod yn gyfan gwbl, mae egwyddorion eraill, megis cyweirio yn y tarddle a'r llygrwr sy'n talu, yn darparu mecanweithiau ar gyfer lleihau, lliniaru neu fynd i'r afael â difrod, gan sicrhau atebolrwydd clir. Mae'r egwyddor ragofalus yn berthnasol pan fo ansicrwydd ynghylch y risgiau o ddifrod difrifol neu ddifrod na ellir ei wrthdroi.

80. Bwriad y dull a ddisgrifir yn yr adran hon yw helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i fynd i'r afael ag ystod o senarios. Fodd bynnag, efallai na fydd y fframwaith hwn yn briodol ym mhob achos ac mae'n rhaid ystyried pob achos yn unigol.

## Sut mae'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol yn berthnasol i'w gilydd

81. Mae'r dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru, CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol (gan adran 3(1) ac adran 5(1) o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol ac erthygl 4A(1) o Orchymyn Sefydlu CNC) wedi'u cynllunio i fod yn gyflenwol ac maent wedi'u teilwra i rolau a chyfrifoldebau penodol pob sefydliad.

82. Maent yn cynrychioli dull haenog sy'n sicrhau nad yw diogelu'r amgylchedd yn cael ei ystyried ar wahân ond ei fod yn gydgyfrifoldeb ar draws lefelau llywodraethiant, gyda chanllawiau a mecanweithiau goruchwylio priodol. Er enghraifft, bydd Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ("SLlAC") yn darparu goruchwyliaeth strategol o'r gofynion ar awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol a dwyn Llywodraeth Cymru, ac awdurdodau cyhoeddus eraill, i gyfrif.

83. Mae'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i'w cymhwyso'n eang ac yn strategol ar draws pob proses llunio polisi (ac eithrio lle byddai polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd), nid polisi amgylcheddol yn unig.

84. Mae'r dyletswyddau ar CNC yn adlewyrchu rôl ganolog y corff mewn polisi a llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru ac yn adeiladu ar ei ddiben cyffredinol i fynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Ochr yn ochr â'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, mae hyn yn ehangu ac yn cryfhau'r broses o gymhwyso'r egwyddorion wrth lunio polisi.

85. Yn eu tro, mae'r dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus penodol wrth gynnal AAS yn ddull wedi'i dargedu sydd â'r nod o sicrhau bod yr egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd yn cael eu hystyried yn ystyrlon mewn cynlluniau a rhaglenni sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Bwriad y dyletswyddau yw gwella canlyniadau amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau ar gyfer cynlluniau a rhaglenni perthnasol.

86. Mae'r dyletswyddau ar CNC a Gweinidogion Cymru, ochr yn ochr â'r dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus penodol wrth gynnal AAS, yn cyfrannu at gyflawni'r amcan amgylcheddol neu, yn achos CNC, ei ddiben cyffredinol. Mae alinio'r dyletswyddau hyn yn sicrhau dull cydlynol a chynhwysfawr o gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd ar draws polisïau a phenderfyniadau yng Nghymru.

# Rhan B: Dyletswyddau Gweinidogion Cymru wrth lunio polisi

87. Mae Rhan B yn esbonio ymhellach sut y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 3 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol a materion cysylltiedig. Dylid darllen Rhan B ochr yn ochr â Rhan A. Gyda'i gilydd, maent yn esbonio'r materion a nodir yn adran 6(1) o'r Ddeddf a hefyd rai materion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol (adran 6(4)).

88. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r Datganiad hwn wrth gydymffurfio â'u dyletswydd llunio polisi o dan adran 3(1) o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol. Dyletswydd i "roi sylw" yw'r sylw sy'n briodol o dan yr holl amgylchiadau. Rhaid arfer y ddyletswydd yn ei sylwedd, gyda thrylwyredd a meddwl agored.

## Dyletswydd ar Weinidogion Cymru

89. Mae adran 3(1) o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru, at ddibenion cyfrannu at yr amcan amgylcheddol:

    (a) rhoi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi o ran Cymru, a
    (b) integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi o'r fath.

90. Mae adran 3(4) yn nodi nad yw adran 3(1) yn gymwys pan fyddai'r polisi o dan sylw yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd.

## Sut y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig cydymffurfio â'r ddyletswydd llunio polisi yn adran 3(1)

91. Mae'r ddyletswydd yn gymwys pryd bynnag y bydd Gweinidogion Cymru yn llunio polisi o ran Cymru ac eithrio lle byddai polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd. Yn ymarferol, ystyrir y bydd y ddyletswydd fel arfer yn gymwys i lunio polisi gan y rhagwelir mai dim ond mewn achosion prin iawn y bydd llunio polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd.

92. Mae "polisi" yn y cyd-destun hwn i'w ddeall yn fras fel camau gweithredu bwriedig a fabwysiedir i gyflawni amcan neu ganlyniad. Yn y cyd-destun hwn, y bwriad yw i 'llunio polisi' gynnwys llunio, datblygu, mabwysiadu, diwygio neu ddiddymu polisi. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

    - cynigion deddfwriaethol;
    - datganiadau, strategaethau a fframweithiau polisi;
    - gosod a diwygio targedau a nodau ac amcanion eraill;
    - datganiadau gweinidogol sy'n nodi safbwynt ffurfiol y llywodraeth ar fater;
    - unrhyw ddogfen arall sy'n nodi newid mewn ymagwedd at sefyllfa bolisi sefydledig.

## *Cymru*

93. Mae "Cymru" yn cael ei diffinio'n fras i gynnwys, i'r graddau y mae'r polisi yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, ardal parth Cymru y tu hwnt i derfyn môr y môr tiriogaethol. Mae hyn yn ymestyn at y dibenion hyn y diffiniad o "Cymru" yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Diffinnir "parth Cymru" gan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

## *Gweithredu polisi a phenderfyniadau unigol*

94. Mae'r ddyletswydd yn gymwys i lunio polisi ac ni chaniateir ei hail-gymhwyso pan fydd polisi'n cael ei weithredu. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys i benderfyniadau rheoleiddio, cynllunio neu drwyddedu unigol a wneir gan Weinidogion Cymru (neu awdurdodau sy'n gweithredu ar eu rhan). Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, penderfyniadau cynllunio wedi'u "galw i mewn" o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Byddai penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud o fewn y fframwaith polisi cynllunio, a fyddai'n ystyried yr egwyddorion o dan y darpariaethau hyn.

95. Mewn rhai achosion, bydd penderfyniadau Gweinidogol unigol yn cael eu gwneud gydag effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, neu risg sylweddol i'r amgylchedd, ac sy'n gofyn am bolisi newydd neu ddiwygio polisi presennol i bob pwrpas. Yn yr achos hwnnw, dylid diweddaru'r polisi, a byddai hyn yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau.

## *Yr egwyddorion amgylcheddol*

96. Trafodir cymhwyso a dehongli'r egwyddorion yn Rhan A, a rhaid eu hystyried ochr yn ochr â'r Rhan hon wrth gymhwyso'r ddyletswydd llunio polisi a osodir ar Weinidogion Cymru.

## *'Sylw arbennig'*

97. Mae dyletswydd i roi "sylw arbennig" i fater penodol yn golygu bod rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddo roi "cryn bwysigrwydd a phwys" i'r mater hwnnw. (Gweler, er enghraifft, *East Northamptonshire DC v Secretary of State for Communities and Local Government Barnwell Manor Wind Energy Ltd v East Northamptonshire DC* (2014) EWCA Civ 137).

98. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw arbennig o gryn bwysigrwydd a phwys i'r egwyddorion wrth lunio polisi (ac eithrio lle byddai polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd). Y nod yw bod yn uchelgeisiol a darparu cyfeiriad polisi clir i gyflawni'r canlyniadau polisi a ddymunir drwy gyfrannu at yr amcan amgylcheddol, a darparu digon o hyblygrwydd hefyd i weithredu'n effeithiol ac yn briodol ar draws yr ystod lawn o feysydd polisi Llywodraeth Cymru.

99. Gellir cyferbynnu'r dull gweithredu â'r ddyletswydd "rhoi sylw dyladwy" neu "rhoi sylw" mwy cyffredin, lle mae'r pwys i'w roi ar ffactorau perthnasol yn fater i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad (ar yr amod nad yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn gweithredu'n afresymol).

100. Yn yr un modd â dyletswydd i "roi sylw", rhaid cydbwyso ffactorau ond, yn achos dyletswydd "sylw arbennig", bydd y ffactorau hynny y mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau roi sylw arbennig iddynt yn cael pwysigrwydd arbennig yn yr ymarfer cydbwyso. Yn yr achos hwn, mae hyn yn golygu bod rhaid i'r egwyddorion amgylcheddol fod yn flaenllaw yn yr ymarfer cydbwyso a'r broses ddilynol o wneud penderfyniadau.

101. Gall yr amgylchiadau olygu y dylid rhoi mwy o bwys ar ystyriaethau pwysig eraill neu ffactorau gwrthweithio, megis ystyriaethau iechyd y cyhoedd pwysig neu effeithiau cymdeithasol sylweddol, neu gostau gormodol, nag ar yr egwyddorion. O dan amgylchiadau lle nad oes rhyw lawer o effaith ar yr amgylchedd, mae'n bosibl mai effaith gyfyngedig fyddai gan yr egwyddorion (ac, mewn achosion lle byddai polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd, ni fydd y ddyletswydd yn gymwys). Y bwriad yw pwysleisio pwysigrwydd yr egwyddorion, gan ddarparu hefyd ar gyfer meysydd a ffactorau amrywiol sydd i'w hystyried gan Weinidogion Cymru wrth lunio polisi o ran Cymru.

### *'Dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd'*

102. Mae'r ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru i roi sylw arbennig i'r egwyddorion, ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd, wrth lunio polisi o ran Cymru. Mae'r ddyletswydd yn gymwys yn eang, ar draws yr ystod lawn o bolisïau Llywodraeth Cymru, nid polisïau amgylcheddol yn unig. Mae'r ddyletswydd yn gymwys i unrhyw bolisi, ac eithrio lle byddai polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd. Mae'r trothwy hwn wedi'i bennu'n isel iawn yn fwriadol, a bydd rhaid i lunwyr polisi asesu'n ofalus beth fydd effaith eu polisi er mwyn pennu a fydd eu polisi'n bodloni'r meini prawf hyn.

103. Y bwriad yw osgoi bod y ddyletswydd yn gymwys o dan yr amgylchiadau hynny lle nad yw llunio polisi yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd neu pan fo'r effaith mor fach fel ei fod yn ddibwys, lle byddai'n ddiangen a lle allai danseilio gweithredu effeithiol mewn achosion eraill pan fo'r effaith ar yr amgylchedd yn fwy arwyddocaol. Yn ymarferol, ystyrir y bydd y ddyletswydd fel arfer yn gymwys i broses llunio polisi Gweinidogion Cymru gan ei bod yn debygol mai dim ond mewn achosion prin iawn y bydd llunio polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd.

104. Mewn achosion o'r fath, fodd bynnag, bydd angen i lunwyr polisi ddangos sut y maent wedi asesu unrhyw effeithiau amgylcheddol yn ofalus ac esbonio a chofnodi'r rhesymau dros ddod i'r casgliad y byddai'r polisi'n cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd.

105. Bydd offer asesu effaith presennol neu ddull amgen priodol yn cael eu defnyddio i benderfynu a fyddai polisi'n cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd.

## *Eithriadau a Brys*

106. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol ar gyfer eithriadau ar gyfer meysydd polisi penodol (megis cyllid neu gyllidebau).

107. Yn achos argyfwng cenedlaethol lle mae angen gweithredu ar frys, dylid cymhwyso'r ddyletswydd mewn ffordd sy'n briodol i'r cyd-destun a'r angen am ymateb prydlon iawn. Wrth i'r brys gilio, rhaid ystyried y ddyletswydd yn y ffordd arferol.

108. Yn gyffredinol, mae'r ddyletswydd i roi sylw arbennig i'r egwyddorion ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn gymwys wrth lunio pob polisi (ac eithrio lle byddai polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd). Mae hyn yn cynnwys llunio polisi sy'n cynnwys cyllidebau, dyrannu adnoddau, cyllid neu wariant. Bydd y ddyletswydd yn cael ei chymhwyso, er enghraifft, pan fydd cynigion gwariant yn cael eu datblygu a'u cyflwyno i'w cymeradwyo cyn gosod y gyllideb flynyddol a hefyd wedyn i bolisïau unigol sydd â goblygiadau o ran gwariant. Os oes effaith ar bolisi, fel nad yw proses y gyllideb ar wahân i'r broses llunio polisi, bydd y ddyletswydd yn gymwys i broses y gyllideb. Er enghraifft, os oes rhaid addasu polisi gan fod llai o adnoddau ar gael, byddai'r ddyletswydd yn gymwys i'r penderfyniad hwnnw. Bydd y ddyletswydd yn gymwys broses y gyllideb dim ond i'r graddau y mae pethau a wneir yn ystod proses y gyllideb yn adlewyrchu proses llunio polisi sydd eisoes wedi'i chyflawni.

109. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol ("SIIA") wrth baratoi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Diben yr SIIA yw nodi tueddiadau allweddol ac effeithiau strategol a chronnus penderfyniadau a wneir yn y Gyllideb Ddrafft. Dylai'r SIIA gynnwys cofnod ar ddyletswydd adran 3(1) Gweinidogion Cymru i sicrhau bod y cyfle'n cael ei gymryd i asesu effaith y gyllideb yn y cyd-destun hwn, ac ochr yn ochr â materion pwysig eraill megis cydraddoldeb, effeithiau economaidd-gymdeithasol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

## *Polisi a lunnir gan eraill ar ran Gweinidogion Cymru*

110. Mae'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn gymwys pryd bynnag y maent yn llunio polisi, gan gynnwys cynigion deddfwriaethol, strategaethau, fframweithiau, gosod targedau ac amcanion eraill, a datganiadau gweinidogol. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o waith llunio polisi yn cael ei wneud gan adrannau Llywodraeth Cymru, gyda'r polisïau'n cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w hystyried a'u cymeradwyo, ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru fod yn sicr bod yr egwyddorion a'r ddyletswydd integreiddio wedi'u cymhwyso'n gywir drwy'r broses llunio polisi, cyn rhoi cymeradwyaeth.

111. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, gall rhai awdurdodau cyhoeddus wneud cynigion polisi ar gyfer Gweinidogion Cymru hefyd. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn gymwys hefyd. Felly, rhaid i awdurdodau cyhoeddus o'r fath sicrhau a dangos eu bod wedi rhoi sylw arbennig i'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisïau (ac eithrio lle byddai polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd). Dylid

gwneud hyn, a dangos tystiolaeth glir o hyn, cyn anfon polisi at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Y disgwyliad yw y bydd trefniadau gweinyddol priodol yn cael eu gwneud gydag awdurdodau cyhoeddus o'r fath i fynd i'r afael â'r senario hwn.

## Sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn ymwneud â'r amcan amgylcheddol

112. Mae Rhan A yn esbonio'n fanwl rôl yr amcan amgylcheddol a'r berthynas rhwng yr egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

113. Mae'r amcan amgylcheddol yn rhoi eglurder a ffocws i gymhwyso'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru. Dyma'r nod cyffredinol y mae cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd integreiddio yn ceisio ei gyflawni. Diben datganedig y dyletswyddau hynny yw cyfrannu at yr amcan amgylcheddol.

114. Yn gryno, mae'r egwyddorion amgylcheddol yn darparu offer i wella canlyniadau amgylcheddol. Mae'r ddyletswydd integreiddio yn rhoi diogelu'r amgylchedd wrth wraidd y broses llunio polisi ac yn sicrhau bod yr offer hyn a mesurau diogelu'r amgylchedd eraill yn cael eu cymhwyso'n ofalus ac yn feddylgar drwy'r broses llunio polisi. Mae'r amcan amgylcheddol yn darparu'r nod uchelgeisiol ac unedig. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd yn rhan annatod a dynamig o'r broses llunio polisi.

## Perthynas dyletswydd llunio polisi Gweinidogion Cymru â phwerau a dyletswyddau eraill

115. Mae Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i ddyletswyddau amrywiol wrth lunio polisi, a rhaid cymhwyso gofynion y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol ochr yn ochr â rhwymedigaethau statudol perthnasol eraill. Dylai llunwyr polisi sicrhau eu bod yn rhoi sylw i'r Datganiad hwn drwy'r broses gyfan.

116. Er enghraifft, bydd angen i lunwyr polisi ystyried y ffyrdd y mae'r ddyletswydd llunio polisi yn ymwneud â'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â gosod a chyhoeddi amcanion llesiant (adran 3, Deddf 2015). Mae'r amcanion llesiant hynny yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer llunio polisi ledled Llywodraeth Cymru. Fe'u cefnogir gan ddangosyddion i helpu i olrhain cynnydd o ran cyflawni nodau llesiant statudol Cymru.

117. Bydd y ddyletswydd i roi sylw arbennig i'r egwyddorion ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn sicrhau y bydd yr effeithiau ar yr amgylchedd, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn cael eu hystyried wrth lunio polisïau i gefnogi'r amcanion llesiant a bod mesurau priodol o ran diogelu'r amgylchedd yn cael eu nodi a'u gweithredu. Mae'r ddyletswydd yn arbennig o bwysig o ystyried cwmpas eang cyfrifoldebau llunio polisi Gweinidogion Cymru gan fod y bygythiad mwyaf o ddifrod amgylcheddol yn aml yn codi y tu allan i faes polisi amgylcheddol.

118. Dyma un enghraifft o'r amryw o rwymedigaethau statudol a blaenoriaethau polisi y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hystyried wrth lunio polisi. Mae eraill yn cynnwys y targedau a'r strategaethau amgylcheddol a nodir yn Rhan A o'r ddogfen hon. Bydd agweddau eraill i'w hystyried mewn meysydd nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r amgylchedd, yn dibynnu ar y maes polisi a'r amcanion.

## Dangos cydymffurfiaeth

119. Mae tryloywder a hygyrchedd wrth gymhwyso dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan adran 3 yn bwysig er mwyn gweithredu'n effeithiol a chyson a hwyluso craffu ac atebolrwydd. Dylai llunwyr polisi ddogfennu sut y maent yn cymhwyso'r ddyletswydd adran 3(1) drwy'r broses llunio polisi gyfan. Wrth wneud hynny, bydd angen i Weinidogion Cymru esbonio hefyd sut mae eu dyletswydd i roi sylw i'r Datganiad hwn wedi'i chyflawni.

120. Dylai asesiadau o gymhwyso'r dyletswyddau hyn:

- esbonio sut mae hyn wedi digwydd o gam cynnar ac ar hyd y broses llunio polisi gyfan;
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol;
- cynnwys asesiad o'r effeithiau ar yr amgylchedd (cadarnhaol a negyddol); ac
- esbonio sut y mae cymhwyso'r dyletswyddau wedi effeithio ar lunio polisi, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad.

121. O dan amgylchiadau lle ystyrir bod polisi, ar ôl cynnal asesiad gofalus, yn cael dim effaith, neu effaith ddibwys, ar yr amgylchedd, fel y penderfynir nad yw'r ddyletswydd yn gymwys, rhaid esbonio hyn yn rhesymol ac yn gadarn fel rhan o'r broses llunio polisi i ddarparu sicrwydd (a llwybr archwilio clir) bod y ddyletswydd wedi'i hystyried yn gywir.

122. Pan fo effeithiau negyddol ar yr amgylchedd yn debygol, bydd angen esboniad pellach o hyn a'r ffordd y cymhwyswyd dyletswydd adran 3(1) i atal neu liniaru'r effeithiau hynny, gan ystyried y Datganiad hwn.

123. Disgwylir i lunwyr polisi ystyried a chofnodi sut y mae eu dull o roi sylw arbennig i'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd yn cyfrannu at yr amcan amgylcheddol yn unol â'r ddyletswydd adran 3(1). Mae hyn yn cynnwys a yw'r polisi neu'r penderfyniad yn cyfrannu at unrhyw dargedau amgylcheddol perthnasol a / neu'r cynlluniau a'r strategaethau sy'n eu cyflawni. Dylai llunwyr polisi nodi'n glir, lle bo hynny'n berthnasol, sut y mae'r polisi'n cyfrannu at y targedau hyn a / neu'r cynlluniau a'r strategaethau sy'n eu cyflawni.

124. Lle bynnag y bo modd, dylid cysylltu asesiadau â thargedau neu ganlyniadau penodol ac esbonio sut y mae cymhwyso'r dyletswyddau wedi effeithio ar lunio polisi i helpu i'w cyflawni. Mewn achosion lle mae polisi yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i darged amgylcheddol, ond nad oes unrhyw gyfraniad at y targed amgylcheddol hwnnw, dylid esbonio hyn.

125. Mae llunio polisi fel arfer yn cael ei wneud gan swyddogion ar ran Gweinidogion, gyda'r polisïau'n cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan Weinidogion. Rhaid i swyddogion wneud trefniadau priodol i ddogfennu eu hasesiadau o gymhwyso'r dyletswyddau hyn drwy'r broses llunio polisi. Er budd tryloywder a hygyrchedd, y disgwyliad yw y bydd asesiadau a gynhelir yn unol â'r ddyletswydd llunio polisi yn cael eu cyhoeddi gyda'r polisi, pan fo'n briodol. Gellir cyhoeddi'r asesiad fel dogfen ar wahân (megis, er enghraifft, dogfen ymgynghori), neu fel rhan o bolisi. Os yw'r asesiad yn cael ei gyhoeddi fel rhan o bolisi, dylid ei nodi'n glir fel ei fod yn hawdd ei adnabod a chael gafael arno.

126. Mae'r ddyletswydd hefyd yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgymryd â phroses llunio polisi sy'n gofyn am AAS. Yn yr achos hwnnw, byddai angen i lunwyr polisi gwblhau adroddiad amgylcheddol yn unol â gofynion AAS. Dylent ystyried a ddylid cofnodi'r dadansoddiad o effeithiau perthnasol ar yr amgylchedd a chymhwyso'r dyletswyddau mewn perthynas â'r polisi yn yr adroddiad amgylcheddol.

127. Bydd angen i Weinidogion Cymru ddangos cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau p'un a yw'r polisi'n cael ei lunio gan Weinidogion Cymru neu awdurdod cyhoeddus arall ar eu rhan. Rhaid gwneud trefniadau gweinyddol priodol gyda'r awdurdodau perthnasol i fynd i'r afael â'r senario hwn lle bo hynny'n berthnasol.

# Rhan C: Canllawiau i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

128. Mae'r canllawiau hyn yn rhan o'r Datganiad hwn a baratowyd ac a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag adrannau 6 a 7 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol.

129. Mae'r Rhan hon, a Rhan A, yn ganllawiau a roddwyd i CNC yn unol â gofynion adran 6(2) o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol ac maent hefyd yn nodi rhai materion ychwanegol yn unol ag adran 6(4). Dylid darllen y Rhan hon ar y cyd â Rhan A o'r Datganiad.

130. Mae'n ofynnol i CNC roi sylw i'r canllawiau hyn wrth gydymffurfio â'i ddyletswydd llunio polisi o dan erthygl 4A(1) o Orchymyn Sefydlu CNC. Dyletswydd i "roi sylw" yw'r sylw sy'n briodol o dan yr holl amgylchiadau. Rhaid arfer y ddyletswydd yn ei sylwedd, gyda thrylwyredd a meddwl agored.

## Dyletswyddau ar CNC

131. Mae adran 4 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn diwygio Gorchymyn Sefydlu CNC (drwy fewnosod erthygl 4A newydd) ac yn ei gwneud yn ofynnol i CNC:

a) rhoi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi o ran Cymru, a
b) integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi o'r fath.

## Sut i gydymffurfio â'r ddyletswydd llunio polisi yn erthygl 4A(1) o Orchymyn Sefydlu CNC

132. Mae'r ddyletswydd yn gymwys pryd bynnag mae CNC yn llunio polisi o ran Cymru. Dylid deall polisi yn y cyd-destun hwn fel cam gweithredu bwriedig a fabwysiedir i gyflawni amcan neu ganlyniad. Yn y cyd-destun hwn, y bwriad yw i 'llunio polisi' gynnwys llunio, datblygu, mabwysiadu, diwygio neu ddiddymu polisi, gydag enghreifftiau yn cynnwys:

- cynigion deddfwriaethol (er enghraifft, is-ddeddfau a rheoliadau);
- datganiadau, strategaethau a fframweithiau polisi;
- gosod a diwygio targedau a nodau ac amcanion eraill;
- unrhyw ddogfen arall sy'n nodi newid mewn ymagwedd at sefyllfa bolisi sefydledig.

133. Mae'r ddyletswydd yn gymwys i holl waith llunio polisi CNC gan yr ystyrir bod pob polisi CNC yn cael effaith ar yr amgylchedd, neu y gallai gael effaith ar yr amgylchedd, o ystyried rôl a chylch gwaith CNC.

### *Cymru*

134. Mae "Cymru" yn cynnwys, i'r graddau y mae'r polisi yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, ardal parth Cymru y tu hwnt i derfyn môr y môr tiriogaethol. Mae hyn yn ymestyn at y dibenion hyn y diffiniad o "Cymru" yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Diffinnir "parth Cymru" gan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

## *Gweithredu polisi a phenderfyniadau unigol*

135. Mae'r ddyletswydd yn gymwys i lunio polisi ac ni chaniateir ei hail-gymhwyso pan fydd polisi'n cael ei weithredu. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys i benderfyniadau rheoleiddio, cynllunio neu drwyddedu unigol a wneir gan Weinidogion Cymru (neu awdurdodau sy'n gweithredu ar eu rhan).

136. Byddai penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud o fewn fframweithiau a chanllawiau gwneud penderfyniadau CNC a disgwylir i'r fframweithiau hyn ystyried y dyletswyddau o dan y darpariaethau hyn.

137. Mewn rhai achosion, gallai penderfyniadau unigol gael eu gwneud gydag effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, neu risg sylweddol i'r amgylchedd, ac sy'n gofyn i CNC lunio polisi newydd, neu ddiwygio'r polisi presennol, i bob pwrpas. Lle mae hyn yn digwydd, byddai polisi o'r fath yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau.

## *Yr egwyddorion amgylcheddol*

138. Trafodir cymhwyso a dehongli'r egwyddorion yn Rhan A, a rhaid ei hystyried ochr yn ochr â'r Rhan hon wrth gymhwyso'r ddyletswydd llunio polisi a osodir ar CNC.

## *'Sylw arbennig'*

139. Mae dyletswydd i roi "sylw arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol yn golygu ei bod yn ofynnol i CNC roi "pwysigrwydd a phwys sylweddol" i'r egwyddorion wrth lunio polisi. Mae hyn yn cryfhau rôl egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi yn unol â'r cyd-destun strategol a ddarperir gan ddiben cyffredinol CNC.

140. Gellir cyferbynnu'r dull â'r ddyletswydd "rhoi sylw dyladwy" neu "rhoi sylw" mwy cyffredin, lle mae'r pwysau i'w roi i ffactorau perthnasol yn fater i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau (ar yr amod nad yw'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn gweithredu'n afresymol).

141. Fel gyda dyletswydd i roi "sylw dyladwy", rhaid cydbwyso ffactorau. Mae hyn yn golygu bod hyblygrwydd angenrheidiol yn cael ei ddarparu i ystyried ffactorau perthnasol eraill ar draws holl waith polisi CNC. Ond yn achos dyletswydd "sylw arbennig", bydd y ffactorau hynny y mae'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i fod i roi sylw arbennig iddynt yn cael pwysigrwydd arbennig yn yr ymarfer cydbwyso. Yn yr achos hwn, mae'r ddyletswydd i roi "sylw arbennig" yn golygu bod rhaid i'r egwyddorion amgylcheddol fod yn flaenllaw yn yr ymarfer cydbwyso a'r broses ddilynol o wneud penderfyniadau a gyflawnir gan CNC.

## *Eithriadau a Brys*

142. Mae'r dyletswyddau'n gymwys i bob maes polisi (gan gynnwys, er enghraifft, cyllid neu gyllidebau) er, yn ymarferol, mae adnoddau ariannol CNC yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru drwy grant blynyddol, fel yr amlinellir mewn 'Datganiad o Ddarpariaeth Gyllidebol'. Mae hyn yn cael ei ystyried a'i adlewyrchu yng nghynllun busnes blynyddol perthnasol CNC, sy'n cael ei lywio gan adolygiad llinell sylfaen (neu sylfaen sero) manwl o'i wariant a'i rwymedigaethau statudol. Bydd y ddyletswydd yn gymwys i ddyrannu adnoddau a'r broses cynllunio busnes i'r graddau y mae'r broses honno'n cynnwys llunio polisi. Er enghraifft, os oes rhaid addasu polisi gan fod llai o adnoddau ar gael, byddai'r ddyletswydd yn gymwys i'r penderfyniad hwnnw. Bydd y ddyletswydd yn gymwys dim ond i'r graddau y mae pethau a wneir yn ystod proses y gyllideb yn adlewyrchu proses llunio polisi sydd eisoes wedi'i chyflawni.

143. Yn achos argyfwng cenedlaethol lle mae angen gweithredu ar frys, dylid cymhwyso'r ddyletswydd mewn ffordd sy'n briodol i'r cyd-destun a'r angen am ymateb prydlon iawn. Wrth i'r brys gilio, dylid ystyried y ddyletswydd yn y ffordd arferol.

## *Rhoi effaith i ddiben cyffredinol CNC*

144. Mae darpariaethau'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn ategu diben cyffredinol CNC o dan erthygl 4 o Orchymyn Sefydlu CNC, sef:

    (a) ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, a
    (b) cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol,

wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol.

145. Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wedi'i ddiffinio yn adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd ac mae'n ceisio cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu. Diffinnir egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan adran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd.

146. Mae'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn darparu fframwaith cyfreithiol i ymwreiddio egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd yn gyson ac yn dryloyw ar draws polisi cyhoeddus Cymru, maes y mae gan CNC rôl flaenllaw ynddo. Mae hyn yn rhoi ffocws i rolau a chyfrifoldebau presennol CNC yng nghyd-destun dull cyson o ddiogelu'r amgylchedd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd rhoi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd i'r broses llunio polisi yn cyfrannu at gyflawni diben cyffredinol CNC.

147. Er bod gorgyffwrdd cydnabyddedig rhwng agweddau ar yr egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r egwyddorion amgylcheddol, mae'r rhain yn cyflenwi ac yn cryfhau ei gilydd.

## Sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ymwneud â'i gilydd a dyletswydd integreiddio CNC

148. Mae Rhan A yn esbonio'r berthynas rhwng yr egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

## Perthynas dyletswydd llunio polisi CNC â phwerau a dyletswyddau eraill

149. Mae CNC yn ddarostyngedig i ystod o ddyletswyddau a allai effeithio ar lunio polisi at wahanol ddibenion yn dibynnu ar natur y polisi dan sylw. Fodd bynnag, wrth lunio polisi ym mhob cyd-destun, rhaid i CNC roi 'sylw arbennig' i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi.

150. Bydd angen gwneud hyn ochr yn ochr ag ystyriaeth briodol o'r holl ffactorau, dyletswyddau a phwerau perthnasol eraill, gan gynnwys diben cyffredinol CNC (a drafodir uchod). Wrth wneud hynny, rhaid i CNC roi sylw i'r Datganiad hwn.

151. Mae enghreifftiau o ffactorau perthnasol ehangach yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd** sy'n ei gwneud yn ofynnol i CNC fel awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau wrth arfer ei swyddogaethau.
- Cyhoeddi datganiadau ardal i hwyluso gweithredu'r **Polisi Adnoddau Naturiol ("NRP")** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n gosod blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- Cyflawni datblygu cynaliadwy yn unol â **Deddf 2015**, gan gynnwys gosod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd â'r nod o gynyddu cyfraniad CNC at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.

Bydd cymhwyso dyletswydd llunio polisi CNC hefyd yn gysylltiedig â chyflawni unrhyw dargedau neu ganlyniadau penodol sy'n ofynnol gan CNC.

## Dangos cydymffurfiaeth

152. Mae tryloywder a hygyrchedd wrth gymhwyso'r ddyletswydd a osodir ar CNC gan erthygl 4A o Orchymyn Sefydlu CNC yn bwysig er mwyn cyflawni gweithredu effeithiol a chyson a hwyluso craffu ac atebolrwydd.

153. Bydd angen i gydymffurfiaeth CNC â'r ddyletswydd fod yn eglur ac yn atebol. Felly, dylai llunwyr polisi ddogfennu eu gwaith o gymhwyso'r dyletswyddau ar hyd y broses llunio polisi gyfan. Wrth wneud hynny, bydd angen i lunwyr polisi hefyd esbonio sut y mae eu dyletswydd i roi sylw i'r Datganiad hwn wedi'i chyflawni.

154. Dylai asesiadau o gymhwyso'r dyletswyddau hyn:

- esbonio sut y mae hyn wedi digwydd o gam cynnar ac ar hyd y broses llunio polisi gyfan;
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol;
- cynnwys asesiad o'r effeithiau ar yr amgylchedd (cadarnhaol a negyddol); ac
- esbonio sut y mae cymhwyso'r dyletswyddau wedi effeithio ar lunio polisi, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i'r polisi o ganlyniad.

155. Pan fo effeithiau negyddol ar yr amgylchedd yn debygol, bydd angen esboniad pellach o hyn a'r ffordd y cymhwyswyd y ddyletswydd i roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd i atal neu liniaru'r effeithiau hynny, gan ystyried y Datganiad hwn.

156. Lle bynnag y bo modd, dylid cysylltu asesiadau â thargedau neu ganlyniadau penodol ac esbonio sut y mae cymhwyso'r dyletswyddau wedi effeithio ar lunio polisi i helpu i'w cyflawni. Mewn achosion lle mae polisi yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i darged amgylcheddol, ond nad oes unrhyw gyfraniad at y targed amgylcheddol hwnnw, dylid esbonio hyn.

157. Mae'r ddyletswydd hefyd yn berthnasol pan fo CNC yn ymgymryd â phroses llunio polisi sy'n gofyn am AAS. Yn yr achos hwnnw, mae angen i lunwyr polisi gwblhau adroddiad amgylcheddol yn unol â gofynion AAS. Dylent ystyried a ddylid cofnodi'r dadansoddiad o effeithiau perthnasol ar yr amgylchedd a chymhwyso'r dyletswyddau mewn perthynas â'r polisi yn yr adroddiad amgylcheddol.

158. Er budd tryloywder a hygyrchedd, y disgwyliad yw y bydd asesiadau a gynhelir yn unol â'r ddyletswydd llunio polisi yn cael eu cyhoeddi gyda'r polisi, pan fo'n briodol. Gellir cyhoeddi'r asesiad fel dogfen ar wahân (megis, er enghraifft, dogfen ymgynghori), neu fel rhan o bolisi. Os yw'r asesiad yn cael ei gyhoeddi fel rhan o bolisi, dylid ei nodi'n glir fel ei fod yn hawdd ei adnabod a chael gafael arno.

# Rhan D: Canllawiau i awdurdodau cyhoeddus penodol sy’n cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

159. Mae’r canllawiau hyn yn rhan o’r Datganiad hwn a baratowyd ac a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 6 a 7 o’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol.

160. Mae’r Rhan D hon, a Rhan A, yn ganllawiau a roddir i awdurdodau cyhoeddus penodol yn unol â gofynion adran 6(3) o’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol ac maent hefyd yn nodi materion ychwanegol penodol yn unol ag adran 6(4).

161. Dylid darllen y Rhan D hon ar y cyd â Rhan A o’r ddogfen hon ac, ochr yn ochr â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, (“Rheoliadau 2004”), A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive (“Canllaw Ymarferol AAS”), Canllawiau ar Asesiad Amgylcheddol Strategol yng Nghymru (“Canllawiau ar AAS yng Nghymru”) a chanllawiau perthnasol eraill.

162. Mae’n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol roi sylw i’r canllawiau hyn wrth gydymffurfio â’u dyletswydd o dan adran 5(1) o’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol. Dyletswydd i “roi sylw” yw’r sylw sy’n briodol o dan yr holl amgylchiadau. Rhaid arfer y ddyletswydd yn ei sylwedd, gyda thrylwyredd a meddwl agored.

163. Mae adran 5(1) yn gymwys pan fo awdurdodau cyhoeddus penodol yn cyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad ag asesiadau o gynlluniau a rhaglenni sy’n ymwneud yn unig â Chymru neu unrhyw ran o Gymru o dan Reoliadau 2004 (neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol sy’n disodli’r Rheoliadau hynny).

164. Mae adran 5(4) yn diffinio “awdurdod cyhoeddus” at ddibenion adrannau 5 a 6 o’r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol. Ystyr “awdurdod cyhoeddus” yw person, ac eithrio Gweinidogion Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd (a) yn awdurdod Cymreig datganoledig o fewn yr ystyr a roddir i “devolved Welsh authority” gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu (b) a restrir ym mharagraff 9(2) neu (6) o Atodlen 7B i’r Ddeddf honno. Mae manylion pellach isod.

165. Mae’r gofynion hyn yn ymwneud â’r sefyllfa lle mae awdurdodau cyhoeddus penodol yn ymgymryd ag AAS. Wrth gynnal AASau, bydd angen iddynt sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu hystyried yn benodol.

## Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

166. Mae’r gofyniad i gynnal asesiad amgylcheddol strategol (“AAS”) yn tarddu o Gyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau’r UE wneud asesiad amgylcheddol ar gyfer cynlluniau a rhaglenni

sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol ac sy'n ceisio sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu i lefel uchel a chyfrannu at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni gyda'r nod o hyrwyddo datblygu cynaliadwy (erthygl 1). Gweithredwyd y Gyfarwyddeb honno gan Reoliadau 2004, o ran cynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud â Chymru gyfan yn unig neu ag unrhyw ran o Gymru yn unig. Mae amcanion y Gyfarwyddeb a Rheoliadau 2004 yn cyd-fynd yn dda â'r amcan amgylcheddol yn y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol (gweler Rhan A).

167. Mae Rheoliadau 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r "awdurdod cyfrifol" (fel y'i diffinnir gan reoliad 2(1)) gynnal asesiad o effeithiau sylweddol tebygol cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gosod fframweithiau ar gyfer cydsyniad datblygu mewn sectorau penodol. Mae'r asesiad yn cynnwys paratoi adroddiad amgylcheddol sy'n manylu ar effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd a dewisiadau amgen rhesymol, ac ymgynghori, gan gynnwys â CNC a Cadw, sef y cyrff ymgynghori dynodedig (oni bai mai Cadw yw'r "awdurdod cyfrifol" ar gyfer cynllun neu raglen; yn yr achos hwnnw, gweler rheoliad 4(2)).

168. Ni ellir mabwysiadu'r cynllun neu'r rhaglen nes bod materion penodol wedi'u hystyried, gan gynnwys yr adroddiad amgylcheddol a'r ymgynghoriad. Ar ôl ei fabwysiadu, rhaid i'r awdurdod cyfrifol gyhoeddi'r cynllun neu'r rhaglen, yr adroddiad amgylcheddol a datganiad yn esbonio materion penodol, gan gynnwys sut y cafodd yr adroddiad ei ystyried a sut y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio yn y cynllun neu'r rhaglen. Rhaid iddynt hefyd fonitro gweithrediad y cynllun neu'r rhaglen ar gyfer effeithiau andwyol annisgwyl ar yr amgylchedd fel y gellir cymryd camau adfer priodol.

## Asesiadau amgylcheddol: dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus penodol o dan y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol

169. Mae adran 5(1) o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol, at ddibenion cyfrannu at yr amcan amgylcheddol, roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth gyflawni unrhyw swyddogaethau mewn cysylltiad ag asesu cynlluniau a rhaglenni o dan "Reoliadau 2004". Cyfeirir at hyn fel "dyletswydd adran 5(1)" yn y canllawiau hyn.

170. Mae asesiad amgylcheddol o effeithiau sylweddol tebygol cynlluniau a rhaglenni perthnasol yn arwain at ddiogelu'r amgylchedd yn well, cynlluniau a rhaglenni mwy cadarn ac ystyriaeth bellach o ddewisiadau amgen. Fel y cyfryw, mae'r ddyletswydd adran 5(1) yn darparu cyfle pwysig i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol, drwy gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd (gweler hefyd Ran A). Dylid integreiddio'n llawn yr AAS, a'r ddyletswydd adran 5(1), yn y broses o lunio cynlluniau neu raglenni o'r cychwyn cyntaf ac ym mhob cam gwneud penderfyniadau ar ôl hynny.

171. Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 5(1) fel rhan o'r broses AAS yn helpu i gyflawni'n well ofynion a nodau deddfwriaethol sylfaenol Rheoliadau 2004. Yn eu tro, mae'r nodau hynny'n cyd-fynd â'r ddyletswydd adran 5(1) a byddant yn helpu i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol. Er enghraifft, mae Atodlen 1 i Reoliadau 2004 yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer pennu arwyddocâd tebygol effeithiau ar yr amgylchedd, gan gynnwys perthnasedd y cynllun neu'r rhaglen ar gyfer integreiddio ystyriaethau amgylcheddol yn benodol gyda'r bwriad o hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae Atodlen 2 (a rheoliad 12) yn cysylltu'n benodol wybodaeth ar gyfer yr adroddiad amgylcheddol a baratoir fel rhan o AAS ag amcanion sefydledig o ran diogelu'r amgylchedd, gan gynnwys yr amcan amgylcheddol a sefydlwyd o dan y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen.

172. Mae'r ddyletswydd adran 5(1) yn gymwys i bob "awdurdod cyhoeddus", fel y'i diffinnir yn adran 5(4) o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol. Mae hwn yn ddiffiniad eang sy'n cynnwys awdurdodau cyhoeddus o fewn cwmpas deddfwriaethol y Senedd, ac eithrio Gweinidogion Cymru neu CNC.

173. Yn ymarferol, bydd y mwyafrif o "awdurdodau cyfrifol" (fel y'u diffinnir gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2004) yn cyd-fynd â'r diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" (fel y'i diffinnir gan adran 5(4) o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol). Fodd bynnag, efallai y bydd awdurdodau cyhoeddus sy'n "awdurdodau cyfrifol" ond nad ydynt yn "awdurdod cyhoeddus" at y dibenion hyn, gan nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad yn adran 5(4) (megis, er enghraifft, Network Rail ac Ystad y Goron). O dan yr amgylchiadau hyn, rydym yn annog yr awdurdodau cyhoeddus hynny i fabwysiadu'r dull a nodir yn y canllawiau hyn i sicrhau cysondeb â'r gyfundrefn a'r fframwaith polisi ehangach.

174. Mae'r ddyletswydd adran 5(1) hefyd yn gymwys i unrhyw ddarpariaeth gyfatebol sy'n disodli Rheoliadau 2004. Mae hyn yn golygu bod y ddyletswydd hon yn gymwys i Reoliadau 2004 fel y cânt eu diwygio, eu dirymu a'u disodli neu eu hailddeddfu, fel bod y ddyletswydd yn gymwys i unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer asesiadau amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud yn unig â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.

175. Bwriad y ddyletswydd hon yw galluogi dull cymesur wedi'i dargedu sy'n ategu'r dyletswyddau llunio polisi ehangach a osodir ar Weinidogion Cymru a CNC drwy ganolbwyntio ystyriaeth o egwyddorion amgylcheddol a diogelu'r amgylchedd ar senarios lle mae effaith ar yr amgylchedd a allai fod yn sylweddol. Wrth wneud hynny, bydd hyn yn sicrhau bod y broses o baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni perthnasol drwy'r broses AAS yn cyfrannu at nodau Rheoliadau 2004 ac at gyflawni'r amcan amgylcheddol a sefydlwyd gan y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol (gweler Rhan A) mewn ffordd sy'n gyson, yn dryloyw, yn eglur ac yn atebol.

## Sut i gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 5(1)

176. Mae'r Canllaw Ymarferol AAS yn cynnig canllawiau cyffredinol ar sut i gydymffurfio â Rheoliadau 2004. Mae rhagor o fanylion hefyd ar gael yn y Canllawiau ar AAS yng Nghymru.

## *Ystyried a oes angen AAS*

177. Cyfrifoldeb yr awdurdod cyfrifol sy'n paratoi'r cynllun neu'r rhaglen, neu'r awdurdod cyfrifol y mae'n cael ei baratoi neu ei pharatoi ar ei ran, yw penderfynu a oes angen AAS. Mae'r Canllaw Ymarferol AAS yn helpu awdurdodau cyfrifol i benderfynu a oes angen AAS ar gyfer cynllun neu raglen. Mae'r ddyletswydd adran 5(1) yn gymwys ar y cam hwn a dylid cofnodi'n glir gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd.

## *Dyletswydd i "roi sylw"*

178. Y ddyletswydd a osodir ar awdurdodau cyhoeddus penodol gan adran 5(1) i "roi sylw" yw'r sylw sy'n briodol o dan yr holl amgylchiadau. Rhaid arfer y ddyletswydd yn ei sylwedd, gyda thrylwyredd a meddwl agored. Mae hyn yn fwriadol wahanol i'r ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru a CNC i roi "sylw arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod y gyfundrefn AAS eisoes yn canolbwyntio ar effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd. Felly, yn y cyd-destun hwnnw, nid oes angen ychwanegu mwy o bwys a phwyslais at gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a ddarperir gan y ddyletswydd "sylw arbennig".

## *Yr egwyddorion amgylcheddol*

179. Trafodir cymhwyso a dehongli'r egwyddorion amgylcheddol yn Rhan A, a rhaid i awdurdodau cyhoeddus eu hystyried ochr yn ochr â'r Rhan D hon wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 5(1).

## *Cymhwyso'r ddyletswydd adran 5(1) i'r broses AAS*

180. Mae'r Canllaw Ymarferol AAS yn amlinellu'r camau yn y broses AAS. Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus gymhwyso'r ddyletswydd adran 5(1) ar bob cam, ynghyd ag ystyriaethau perthnasol eraill. Dylent ganolbwyntio ar yr angen i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd gyda'r diben o gyfrannu at yr amcan amgylcheddol (gweler Rhan A). Dyma drosolwg o rai o'r camau allweddol a sut y gall y ddyletswydd fod yn gynwys:

    ***Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas***

    Mae'r cam hwn yn cynnwys casglu gwybodaeth sylfaenol i ragweld a monitro effeithiau ar yr amgylchedd. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys y dystiolaeth orau sydd ar gael o'r difrod posibl a allai gael ei achosi gan y gwahanol opsiynau sy'n cael eu hystyried ar gyfer cynllun neu raglen. Dylid ystyried pob un o'r egwyddorion amgylcheddol, a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd, fel yr esbonnir yn llawnach yn Rhan A. Os nad yw gwybodaeth sylfaenol ar gael neu os yw'n anfoddhaol, dylid cymhwyso'r egwyddorion i reoli'r ansicrwydd hwnnw ac i nodi camau priodol i ddatblygu gwell gwybodaeth.

Defnyddir amcanion AAS i helpu i ddangos a yw amcanion y cynllun neu'r rhaglen yn fuddiol i'r amgylchedd, i gymharu effeithiau dewisiadau amgen ar yr amgylchedd, neu i awgrymu gwelliannau. Dylid ystyried y ddyletswydd adran 5(1) yn ofalus wrth ddatblygu amcanion AAS, gan gynnwys sut y gellir datblygu amcanion AAS, drwy gymhwyso'r ddyletswydd adran 5(1), i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol. Er enghraifft, gall amcan AAS gynnwys gwarchod safleoedd bywyd gwyllt penodol neu wella bioamrywiaeth er mwyn cyfrannu at lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd.

Dylai'r awdurdod cyhoeddus esbonio cymhwyso'r ddyletswydd adran 5(1) wrth ymgynghori â CNC a Cadw ar gwmpas yr Adroddiad Amgylcheddol.

***Cam B: Datblygu a mireinio dewisiadau amgen ac asesu effeithiau***

Rhaid ystyried y ddyletswydd adran 5(1) drwy gydol y broses o ddatblygu dewisiadau amgen ac asesu effeithiau (gweler hefyd Ran A). Er enghraifft, dylid cymhwyso'r ddyletswydd wrth brofi amcanion y cynllun neu'r rhaglen yn erbyn amcanion AAS, ac i helpu i ddatblygu dewisiadau amgen. Dylid ystyried y ddyletswydd hefyd wrth ragfynegi, asesu a gwerthuso effeithiau cynllun neu raglen ac asesu dewisiadau amgen. Dylid cymhwyso'r ddyletswydd hefyd wrth ystyried sut i atal, lleihau a gwrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol sylweddol a gweithredu mesurau monitro.

***Cam C: Paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol***

Rhaid i'r Adroddiad Amgylcheddol gynnwys gwybodaeth benodol fel y nodir yn fanylach yn Rheoliadau 2004. Rhaid i'r adroddiad nodi, disgrifio a gwerthuso effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd (a) gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen; a (b) dewisiadau amgen rhesymol, gan ystyried amcanion a chwmpas daearyddol y cynllun neu'r rhaglen. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys y cyfryw wybodaeth y cyfeirir ati yn Atodlen 2 fel y bo'n ofynnol yn rhesymol.

Wrth baratoi a darparu'r wybodaeth honno, rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau roi sylw i'r ddyletswydd adran 5(1) (gweler hefyd Ran A).

Wrth benderfynu ar gwmpas a lefel manylder yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr adroddiad, rhaid i'r awdurdod cyfrifol hefyd ymgynghori â CNC a Cadw.

Yna, dylid cofnodi'n glir dystiolaeth o gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd integreiddio i'r cynllun neu'r rhaglen, gan gynnwys y cyfraniad y mae hyn wedi'i wneud at yr amcan amgylcheddol, yn yr Adroddiad Amgylcheddol drafft a gyflwynir i ymgynghori arno. Mae hyn yn cynnwys a yw'r cynllun neu'r rhaglen yn cyfrannu at unrhyw dargedau amgylcheddol perthnasol a / neu'r cynlluniau a'r strategaethau sy'n eu cyflawni. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau nodi'n glir, lle bo hynny'n berthnasol, sut mae'r cynllun neu'r rhaglen yn cyfrannu at y targedau hyn a / neu'r cynlluniau a'r strategaethau sy'n eu cyflawni.

### *Cam D: Ymgynghori ar y cynllun drafft neu'r rhaglen ddrafft a'r Adroddiad Amgylcheddol*

Mae ymgynghori yn agwedd bwysig ar y broses AAS a bydd angen i awdurdodau cyhoeddus ymgynghori â CNC, Cadw a'r cyhoedd ar y cynllun drafft neu'r rhaglen ddrafft a'r Adroddiad Amgylcheddol.

Bydd ymgyngoreion yn ystyried yr wybodaeth ychwanegol ynghylch cymhwyso'r ddyletswydd adran 5(1) fel rhan o'r cynllun drafft neu'r rhaglen ddrafft a'r Adroddiad Amgylcheddol a gyflwynir iddynt. Dylai'r wybodaeth ychwanegol hon a'r dadansoddiad gefnogi awdurdodau ymgynghori i asesu ansawdd cyffredinol yr wybodaeth a gyflwynir iddynt ar yr effeithiau a'r risgiau amgylcheddol a gwella gweithrediad effeithiol y ddyletswydd hon a'r broses AAS.

Yn dibynnu ar ganlyniad y camau ymgynghori, efallai y bydd angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddychwelyd i gamau cynharach y broses AAS i adolygu cymhwysiad y dyletswyddau hyn.

Ar ôl ymgynghori ar y cynllun drafft neu'r rhaglen ddrafft a'r Adroddiad Amgylcheddol, bydd yr awdurdod cyfrifol yn cwblhau'r cynllun neu'r rhaglen gan ystyried ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion a gafwyd. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl mabwysiadu cynllun neu raglen, rhaid i awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael, gan gynnwys sut mae ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hystyried.

Wrth fabwysiadu'r cynllun terfynol, rhaid i'r awdurdod cyfrifol hefyd gyhoeddi datganiad sy'n nodi manylion penodol. Rhaid i'r datganiad hwn nodi (ymysg pethau eraill) sut y mae ystyriaethau amgylcheddol, gan gynnwys y ddyletswydd adran 5(1), wedi'u hintegreiddio yn y cynllun neu'r rhaglen, sut y mae'r Adroddiad Amgylcheddol wedi'i ystyried, y rhesymau dros ddewis y cynllun neu'r rhaglen fel y'i mabwysiadwyd yng ngoleuni dewisiadau amgen rhesymol eraill a monitro effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.

### *Cam E: Monitro effeithiau sylweddol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen ar yr amgylchedd*

Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus fonitro effeithiau sylweddol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen ar yr amgylchedd, er mwyn nodi unrhyw broblemau yn gynnar a galluogi camau adfer priodol. Gall yr awdurdod fonitro at ddibenion eraill hefyd.

Pan fo mesurau wedi'u cymryd, ar ôl ystyried y ddyletswydd adran 5(1), i atal, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, dylid monitro gweithrediad i sicrhau bod y mesurau hynny'n llwyddiannus neu i gymryd unrhyw gamau pellach a allai fod yn angenrheidiol. Pan fo monitro yn nodi effeithiau andwyol, dylid cymryd camau adfer priodol. Gall monitro hefyd nodi cyfleoedd eraill i gymryd camau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd a dylid ystyried y rhain i'w datblygu a'u gweithredu.

## Sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ymwneud â'i gilydd ac â'r ddyletswydd integreiddio

181. Mae Rhan A yn esbonio'r berthynas rhwng yr egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

## Sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd integreiddio yn ymwneud â'r amcan amgylcheddol

182. Mae Rhan A o'r Datganiad yn esbonio sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ymwneud â'i gilydd ac â'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd. Mae Rhan A hefyd yn esbonio'r amcan amgylcheddol a sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn ymwneud â'r amcan hwnnw. Fel y nodwyd eisoes, dylid ystyried Rhan A gyda'r Rhan hon wrth gymhwyso'r ddyletswydd adran 5(1).

183. Mae'r egwyddorion amgylcheddol yn darparu offer i wella canlyniadau amgylcheddol. Mae'r ddyletswydd integreiddio yn rhoi diogelu'r amgylchedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau bod yr offer hyn a mesurau diogelu'r amgylchedd eraill yn cael eu cymhwyso'n ofalus ac yn feddylgar drwy'r broses AAS. Mae'r amcan amgylcheddol yn darparu'r nod uchelgeisiol ac unedig. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd yn rhan annatod a dynamig o'r broses o wneud penderfyniadau.

## Sut y mae'r ddyletswydd adran 5(1) yn ymwneud â phwerau a dyletswyddau eraill

184. Mae awdurdodau cyhoeddus yn ddarostyngedig i ystod eang o ddyletswyddau wrth gyflawni AAS. Fel arfer, yn ystod Cam A o'r broses AAS (fel y nodir yng Nghanllaw Ymarferol AAS) y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cwmpasu deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol ac unrhyw ystyriaethau ehangach. Er enghraifft, gall hyn gynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf 2015, Deddf yr Amgylchedd a Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Bydd angen i awdurdodau cyhoeddus penodol roi sylw i'r ddyletswydd adran 5(1) ochr yn ochr ag ystyriaethau perthnasol eraill ac ar hyd y broses AAS gyfan. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r canllawiau hyn drwy gydol y broses.

185. Er enghraifft, mae'r ddyletswydd adran 5(1) wedi'i chysylltu'n agos ag atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'r dull ecosystemau, gan gynnwys drwy gyfrannu at yr amcan amgylcheddol, fel yr esbonnir yn Rhan A.

186. Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i wella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau yng Nghymru ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Gyda'i gilydd, gallai hyn a'r ddyletswydd adran 5(1) gynnwys datblygu amcanion i wella

bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau wrth ystyried effeithiau cynllun neu raglen ar yr amgylchedd, a all gyfrannu at y ddyletswydd adran 6 a'r amcan amgylcheddol.

187. Mae'r dull ecosystemau hwn yn rhan hanfodol o'r fframwaith polisi amgylcheddol yng Nghymru gan ei fod yn ystyried y rhyngberthynas gymhleth o fewn ecosystemau, gan hyrwyddo gwneud penderfyniadau cyfannol yn hytrach na mynd i'r afael â materion ar wahân. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn benodol gan yr amcan amgylcheddol. Yn y bôn, gall cymhwyso'r ddyletswydd adran 5(1), er mwyn cyflawni'r amcan amgylcheddol, hefyd helpu awdurdodau cyhoeddus i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6 yn Neddf yr Amgylchedd.

188. Gall AAS hefyd ategu a helpu i wella asesiadau amgylcheddol eraill. Er enghraifft, gall helpu i ddarparu cyd-destun a gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol prosiectau penodol ac, yn y modd hwn, gall cymhwyso'r ddyletswydd i AAS ddylanwadu ar ganlyniadau amgylcheddol gwell yn ehangach.

189. Trafodir perthynas y ddyletswydd adran 5(1) â'r dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru a CNC gan Ran 1 o'r Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol yn Rhan A.

## Dangos cydymffurfiaeth

190. Dylid dangos cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau drwy broses bresennol yr asesiad amgylcheddol ac, yn arbennig, dylid cofnodi cydymffurfiaeth yn yr Adroddiad Amgylcheddol.

191. Bydd awdurdodau cyhoeddus yn dechrau cofnodi'n glir eu hystyriaeth o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd yn ystod y broses rhagsgrinio a sgrinio.

192. Os yw cynllun neu raglen yn gofyn am AAS, dylid cofnodi'n glir dystiolaeth o gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd integreiddio i'r cynllun neu'r rhaglen a'r cyfraniad y mae hyn wedi'i wneud at yr amcan amgylcheddol, yn yr Adroddiad Amgylcheddol drafft a gyhoeddir i ymgynghori arno.

193. Dylai'r wybodaeth a'r dadansoddiad ychwanegol a ddarperir ynghylch ystyried y ddyletswydd adran 5(1) gefnogi'r cyrff ymgynghori ac eraill i asesu ansawdd cyffredinol yr wybodaeth a gyflwynir iddynt ar effeithiau amgylcheddol.

194. Dylid dogfennu ac esbonio'n glir gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd adran 5(1) yn yr Adroddiad Amgylcheddol terfynol.

# Geirfa

| Term / Acronym | Ystyr |
|---|---|
| AAS | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| Canllaw Ymarferol AAS | Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| Canllawiau ar AAS yng Nghymru | Canllawiau ar Asesiad Amgylcheddol Strategol yng Nghymru |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Deddf 2015 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Deddf yr Amgylchedd | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| Y Ddeddf Llywodraethiant Amgylcheddol | Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 |
| Gorchymyn Sefydlu CNC | Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 |
| Rheoliadau 2004 | Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 |
| Senedd | Senedd Cymru |
| SLIAC | Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru |
| SMNR | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| SoNaRR | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| TCA | Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu |